



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllunio Cymru Gyfan 2017-18



CYFLWYNIAD

Lesley Griffiths AC – Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

Mae'n bleser gennyf gyflwyno pedwerydd Adroddiad Perfformiad Blynnyddol Cymru Gyfan, sy'n amlygu sut mae rhanddeiliaid sy'n gweithio o fewn y system gynllunio yng Nghymru yn ceisio gweithio gyda'i gilydd i greu amgylchedd adeiledig a naturiol cynaliadwy a ffyniannus lle gall pobl fyw, gweithio a chwarae.

Mae cymhwysiad lleol y dyletswyddau a osodwyd ar y system gynllunio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, fel y'u disgrifir mewn Cynlluniau Datblygu Lleol a'r penderfyniadau sy'n seiliedig arnynt, yn sicrhau bod Cymru yn creu cymunedau iach a llewyrchus.



Mae Polisi Cynllunio Cymru, ein polisi cenedlaethol ar gyfer cynllunio defnydd tir, wedi ei ailysgrifennu i adlewyrchu'r dyletswyddau sydd wedi eu gosod arnom gan Ddeddf 2015, ac yn sicrhau bod creu lleoedd wrth wraidd ystyriaethau polisi pan fydd cynlluniau datblygu'n cael eu paratoi.

Cynllunio yw'r system sy'n cael ei defnyddio i lywio ac arwain datblygiad er mwyn gwella cymunedau a'u gwneud yn ffyniannus. Mae'n creu a gwella cyfoeth ac ansawdd bywyd. Mae gwaith ymchwil y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol ar "werth cynllunio" hefyd yn adrodd fod y system gynllunio wedi cyfrannu £2.3 biliwn i economi Cymru yn ystod 2016/17.

I'r gwrthwyneb, yn ôl tystiolaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol ar gyllideb ddrafft 2017/18 Llywodraeth Cymru, roedd gwasanaethau cynllunio wedi derbyn gostyngiad o 53% yn eu cyllidebau yn y chwe blynedd flaenorol. Gwnaeth tystiolaeth y gymdeithas i'r Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2019/20 nodi bod toriadau llywodraeth leol i wasanaethau cynllunio wedi achosi effaith "drychinebus". Er mai llywodraeth leol sy'n gyfrifol am benderfyniadau cyllido lleol, mae angen monitro darpariaeth weithredol y gwasanaeth cyhoeddus hanfodol hwn yn ofalus.

Mae'r Adroddiadau Perfformiad Blynnyddol unigol a baratowyd gan awdurdodau cynllunio lleol ac ymgynghoreion statudol yn dangos ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth cynllunio o ansawdd, serch heriau parhaus agenda cyni Llywodraeth y DU ar gyfer y sector cyhoeddus. Daw gwaith ymchwil y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (RTPI) ar amser delfrydol ac mae'n atgoffa pob un ohonom o'r gwerth ariannol, yn ogystal â'r gwerth amgylcheddol a chymunedol, a grëir gan system sy'n dilyn cynllun.

Rwy'n falch o weld awdurdodau cynllunio lleol yn dod ynghyd i gydweithio er mwyn llywio gwelliannau mewn darpariaeth gwasanaethau lleol. Mae gwaith awdurdodau cynllunio lleol gogledd Cymru yn benodol yn esiampl o sut mae'r rhai hynny sy'n gyfrifol am ddarparu

gwasanaethau ar lefel leol yn meddu ar y wybodaeth a gallu gorau i argymhell a chyflwyno newidiadau i arferion cynllunio.

Rwy'n deall y pwysau ariannol sy'n wynebu'r rhai hynny sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau lleol, ac rwy'n agored i'r cysyniad o newid strwythur y ffioedd cynllunio, ar yr amod fod hyn yn arwain at gynnydd yn y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau cynllunio lleol. Rwy'n ddiolchgar i gydweithwyr mewn llywodraeth leol ac yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sy'n parhau i weithio gyda mi i archwilio'r materion hyn.

Mae Cymru yn dibynnu ar system gynllunio flaengar sy'n ymrwymedig i'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy er mwyn cyflawni ffyniant i'w dinasyddion, a chredaf fod yr adroddiad hwn yn dangos ein bod yn gweithio'n effeithiol gyda'n gilydd i greu amgylchedd mwy iachus a ffyniannus.

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Rhagfyr 2018

1 – Y CYD-DESTUN

Adroddiadau Perfformiad Blynyddol – cefndir

Hwn yw'r pedwerydd Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cymru Gyfan. Mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018 ac yn seiliedig ar yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol a gyflwynwyd gan awdurdodau cynllunio lleol i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2018. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried perfformiad gweithredol y system gynllunio, a'r tueddiad ar gyfer perfformiad, ar sail gwybodaeth a gasglwyd gan ddefnyddio'r Fframwaith Perfformiad Cynllunio a chynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, yr Arolygiaeth Gynllunio, awdurdodau cynllunio lleol ac ymgynghoreion statudol.

Datblygodd y Fframwaith Perfformiad Cynllunio o'r [Ymgynghoriad Cynllunio Cadarnhaol](#) a gyhoeddwyd yn 2013, a gynigodd gyflwyno cyfres gyson o ddangosyddion perfformiad a chyflwyno adroddiad blynyddol arnynt. Mae'r Fframwaith Perfformiad yn cynnwys tair rhan:

- Tabl perfformiad, sy'n rhestru'r dangosyddion a'r targedau y'u cytunwyd ag awdurdodau cynllunio lleol a pherfformiad pob awdurdod yn erbyn y rhain
- Yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol, a gaiff ei baratoi gan bob awdurdod cynllunio lleol, sy'n myfrio ar ei berfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol a aeth heibio ac sy'n nodi meysydd o welliant sy'n arfer gorau
- Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cymru Gyfan, a gaiff ei baratoi gan Lywodraeth Cymru. Nod yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cymru Gyfan yw darparu trosolwg o weithrediad y system, a nodi unrhyw angen am newid deddfwriaethol neu weithredol ar sail perfformiad y gwasanaeth cynllunio dros gyfnod o 12 mis.

Deur i gasgliadau am weithrediad y system gynllunio yng Nghymru er mwyn llywio newidiadau posibl i ddeddfwriaeth, polisi Llywodraeth Cymru a chanllawiau yn y dyfodol. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cymru Gyfan hefyd yn galluogi rhanddeiliaid i gael mewnlwg i'r problemau a'r arferion gweithredol sydd ar waith o fewn awdurdodau cynllunio lleol.

Rhagor o wybodaeth

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Perfformiad Cynllunio o'r ffynonellau canlynol:

- Mae tabl y Fframwaith Perfformiad ar gyfer y cyfnod 2017/18 yn **Atodiad A**.
- Mae ein [tudalen we Fframwaith Perfformiad Cynllunio](#) yn nodi'r targedau cyfredol a'r adroddiadau diweddaraf a gyhoeddwyd ar berfformiad.
- Mae ein [tudalen we Adroddiad Perfformiad Blynyddol](#) yn cynnwys y dangosyddion a'r targedau perfformiad sydd angen eu hadrodd, canllawiau ar fformat a chynhyrchu Adroddiadau Perfformiad Blynyddol, ac Adroddiadau Perfformiad Blynyddol o flynyddoedd blaenorol er mwyn gwneud dadansoddiadau cymharol.

2 – GWASANAETHAU CYNLLUNIO A DDARPERIR GAN LYWODRAETH CYMRU

Busnes Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio yn parhau i weithio tuag at roi darpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Deddf 2015) ar waith. Er bod y rhan fwyaf o ddarpariaethau Deddf 2015 eisoes ar waith, gwaith manwl ar ymwreiddio diben y polisi y tu ôl i'r darpariaethau hynny yw'r elfen weithgarwch fawr a wneir gan y gyfarwyddiaeth yn ystod y flwyddyn adrodd.

Mae gwaith yn parhau ar lunio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol cyntaf ar gyfer Cymru. Cynhaliodd y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ymarferiad casglu tystiolaeth rhwng mis Hydref 2016 a mis Mawrth 2018, yn cynnwys galwad ffurfiol am dystiolaeth, gan wahodd rhanddeiliaid i gyfrannu at y gwaith o osod y weledigaeth ar gyfer dogfen ddrafft y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn y dyfodol. Ers diwedd y cyfnod adrodd, mae'r gyfarwyddiaeth wedi ymgynghori ar faterion a phapurau opsiynau, ynghyd â'r opsiynau a ffafir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft.

Mae Deddf 2015 yn gosod dyletswydd statudol ar y system gynllunio i weithredu yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, fel y'u nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethol'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er mwyn sicrhau bod polisiau cynllunio cenedlaethol yn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon, a sicrhau bod polisiau'n adlewyrchu'r nodau llesiant a ffyrdd o weithio a ddiffiniwyd yn y Ddeddf Llesiant, mae adolygiad wedi ei gynnal o Bolisi Cynllunio Cymru. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y diwygiadau arfaethedig i Bolisi Cynllunio Cymru rhwng mis Chwefror a mis Mai 2018. Cyhoeddwyd Argraffiad 10 o Bolisi Cynllunio Cymru ar 6 Rhagfyr 2018, ac mae'n canolbwyntio ar greu lleoedd er mwyn creu cymunedau cynaliadwy.

Mae 21 o Gynlluniau Datblygu Lleol wedi eu mabwysiadu ar hyn o bryd. Mae Cyngor Abertawe ar y cam archwilio ar hyn o bryd a disgwylir iddo fabwysiadu'r cynllun ar ddechrau 2019. Rhagwelir y bydd gan bob cyngor yng Nghymru Gynllun Datblygu Lleol erbyn 2020. Mae tri awdurdod cynllunio lleol wedi dechrau cynnal adolygiad llawn o'u Cynlluniau Datblygu Lleol, sef Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Merthyr Tudful. Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yw'r cyntaf i gael ei baratoi drwy'r weithdrefn tymor byr; disgwylir i'r cynllun gael ei fabwysiadu ddechrau'r flwyddyn nesaf. Yn ogystal, mae llawer o awdurdodau cynllunio lleol wedi dechrau ar eu hadolygiad/diwygiad cyntaf o'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd ganddynt.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n rhagweithiol gydag awdurdodau cynllunio lleol, yn rhanbarthol a fesul unigolyn, i gefnogi'r gwaith o baratoi cynllun datblygu. Mae swyddogion wrthi'n gweithio ar Argraffiad 3 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu ar hyn o bryd, a oedd yn destun ymgynghoriad anffurfiol yn yr hydref. Bydd yn adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o rownd gyntaf y Cynlluniau Datblygu Lleol ac yn cynnwys canllawiau ymarferol ar sut i baratoi neu ddiwygio Cynllun Datblygu Lleol, gan ddefnyddio tystiolaeth gadarn i sicrhau bod cynlluniau'n effeithiol, yn gallu cael eu cyflawni, ac yn cyfrannu at greu lleoedd, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni Polisi Cynllunio Cymru.

O ganlyniad i Ddeddf Cymru 2017 yn datganoli pwerau i Weinidogion Cymru ar 1 Ebrill 2019, mae gwaith wedi mynd rhagddo i gyflwyno trefniadau cydsynio interim ar gyfer

prosiectau seilwaith yng Nghymru. Bydd y rhain yn cynnwys penderfyniadau ar gyfer y canlynol:

- Gorsafoedd cynhyrchu trydan ar y môr ac ar dir sy'n cynhyrchu hyd at 350MW o ynni, yn ogystal â gwifrau trydanol cysylltiedig hyd at 132KV
- Rheoli porthladdoedd a chreu awdurdodau porthladdoedd
- Trwyddedau morol
- Cadwraeth forol ar y môr

Mae Comisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr wedi gwneud prosiect sy'n adolygu'r gyfraith gynllunio yng Nghymru, gyda'r nod o symleiddio a chysoni deddfwriaethau cynllunio. Yn dilyn ymgysylltiad eang â rhanddeiliaid yn ystod y prosiect, cyhoeddodd a chyflwynodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad terfynol i Weinidogion Cymru ar 30 Tachwedd 2018. Bydd hwn yn darparu'r sylfaen dystiolaeth i ddechrau'r broses o gysoni a symleiddio'r deddfwriaeth gynllunio er mwyn sicrhau bod y gyfraith yn gweithio i Gymru ac i wella ei hygyrchedd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid ehangach. Mae swyddogion wedi bod yn ymgysylltu'n helaeth â Chomisiwn y Gyfraith drwy gydol y prosiect.

Gosodwyd rheoliadau newydd sy'n dod â newidiadau i gyfansoddiad a maint pwyllgorau cynllunio i rym, yn ogystal â newidiadau i brosesau apelio, er mwyn cael penderfyniadau cyflymach a mwy effeithiol ar achosion apelio.

Bu swyddogion yn gweithio ar ddatblygu a chyflwyno gwasanaeth amgen i dderbyn, a throsglwyddo, ceisiadau cynllunio i awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru. Gelwyd y gwasanaeth hwn yn "Ceisiadau Cynllunio Cymru", ac mae'n parhau i fod yr unig bwynt mynediad ar gyfer cyflwyno ceisiadau cynllunio'n electronig. Gwnaeth Panel Cyngori, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o ymgynghorwyr cynllunio ac ymgeiswyr yn ogystal â swyddogion cynllunio, gyfrannu at gynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddewis, cynllunio a chael gafael ar wasanaeth TG ymarferol ac effeithiol, a chyfrannodd yn fawr hefyd at brofi effaith ac adolygu'r gwasanaeth cyn ei lansio. Rydym yn ddiolchgar am y cyngor a ddarparwyd, a gyfrannodd at lansiad llwyddiannus ym mis Mai 2018.

Penderfyniadau cynllunio a wnaed gan Lywodraeth Cymru

Math o achos	Targed			
	80% neu fwy	2015/16	2016/17	2017/18
	60% – 80%			
Llai na 60%				
Achosion dyfarnu costau	o fewn 84 o ddiwrnodau	100% 3 o 3	100% 4 o 4	100% 4 o 4
Penderfyniadau ar p'un ai i alw ceisiadau i mewn ai peidio	o fewn 21 o ddiwrnodau	95% 38 o 40	89% 25 o 28	83% 20 o 24
Achosion cyfarwyddo hysbysiad	o fewn 21 o ddiwrnodau	100% 7 o 7	60% 3 o 5	66% 2 o 3
Gorchmynion Caniatâd Datblygu – diwygiadau amherthnasol	o fewn 84 o ddiwrnodau			100% 2 o 2
Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol	o fewn 252 o ddiwrnodau			100% 1 o 1
Apeliadau a adferwyd ac achosion a alwyd i mewn	o fewn 84 o ddiwrnodau	62% 5 o 8	0% 0 o 5	50% 4 o 8
Cadarnhad o orchmynion prynu gorfodol	o fewn 84 o ddiwrnodau	100% 3 o 3	100% 4 o 4	Amherthnasol 0 o 0
Ceisiadau sgrinio asesiadau o'r effaith amgylcheddol	o fewn 21 o ddiwrnodau	86% 19 o 22	88% 8 o 9	100% 6 o 6
Cadarnhad o ganiatadau adeilad rhestredig a chaniatadau ardal gadwraeth	o fewn 84 o ddiwrnodau	93% 28 o 30	100% 26 o 26	96% 29 o 30
Ceisiadau'r Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd	o fewn 112 o ddiwrnodau	Amherthnasol 0 o 0	Amherthnasol 0 o 0	100% 1 o 1
Ceisiadau nad ydynt yn rhai arbenigol (cyfarwyddiadau Erthygl 4 (cadarnhad), tystysgrifau esemptiad carafanau a gwerysyla, gwaredu tir rhandiroedd, ceisiadau gorfodi a cheisiadau dirymu)	O fewn 84 o ddiwrnodau			98% 86 o 97

Ffigur 1 – Ystadegau perfformiad llwyth achosion Llywodraeth Cymru

Gwnaeth y Gyfarwyddiaeth Gynllunio benderfyniad ar 166 o achosion, a chyflwynwyd 155 o'r rhain o fewn eu dyddiad targed, sy'n cynrychioli cyfradd o 93% ar gyfartaledd. Mae'r prydlondeb ar gyfer penderfynu ar yr achosion hyn yn cyrraedd y targedau a osodwyd ar y

cyfan, ac mae wedi gwella ers y llynedd. Fodd bynnag, cydnabyddir bod oediadau wrth brosesu nifer bychan o achosion cymhleth wedi cael effaith ar faint bychan y sampl o'r llwyth achosion.

Mae gwell arferion cadw cofnodion wedi symleiddio'r broses ymdrin ag achosion, ac mae gwneud defnydd gwell o ddatrysiadau TGCh i gofnodi, prosesu a monitro achosion, gan gynnwys creu a monitro ystadegau perfformiad, wedi sicrhau bod y data wedi adlewyrchu perfformiad y Gyfarwyddiaeth Gynllunio yn fwy cywir dros amser. Mae hefyd yn sicrhau bod dealltwriaeth fwy cywir o ddata perfformiad ar gael drwy gydol y flwyddyn.

Er bod y ffigurau perfformiad yn nodi bod 93% o achosion yn cael eu penderfynu o fewn y targed, cydnabyddir bod lle o hyd i wella ar hyn, a bydd gwaith parhaus i sicrhau gwelliannau pellach i berfformiad yn ystod 2018/19.

Penderfyniadau cynllunio a wnaed gan yr Arolygiaeth Gynllunio (Cymru) ar ran Llywodraeth Cymru

Dangosydd	Targed	2015/16	2016/17	2017/18
Apeliadau a benderfynwyd drwy sylwadau ysgrifenedig (Rhan 1 a Rhan 3 o Reoliadau 2017)	85% mewn wyth wythnos		97.8%	91.67%
Apeliadau a benderfynwyd drwy sylwadau ysgrifenedig (Rhan 2) (tan fis Tachwedd 2017)	85% mewn 16 wythnos	94.5%	96.2%	98.36%
Apeliadau a benderfynwyd drwy sylwadau ysgrifenedig (Rhan 4)	85% mewn 15 wythnos (o fis Tachwedd 2017)			98.85%
Apeliadau a benderfynwyd drwy wrandawiadau	85% mewn 22 wythnos	91.9%	92.6%	100%
	85% mewn 21 wythnos (o fis Tachwedd 2017)			87.50%
Apeliadau a benderfynwyd drwy ymchwiliadau	85% mewn 30 wythnos	100%	72.7%	100%
	85% mewn 29 wythnos (o fis Tachwedd 2017)			100%
Apeliadau gorfodaeth a benderfynwyd drwy sylwadau ysgrifenedig	85% mewn 30 wythnos	100%	100%	100%
	85% mewn 28 wythnos (o fis Tachwedd 2017)			100%
Apeliadau gorfodaeth a benderfynwyd drwy wrandawiadau ac ymchwiliadau	85% mewn 41 wythnos	88.9%	84.6%	95.65%

Ffigur 2 – Ystadegau perfformiad llwyth achosion Arolygiaeth Gynllunio Cymru

Mae'r siart uchod yn dangos bod perfformiad Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn gyson. Mae'n cyrraedd pob un o'i thargedau perfformiad ac yn mynd y tu hwnt i rai. Mae wedi mynd y tu hwnt i'w thargedau ansawdd ar gyfer penderfyniadau arolygwyr a pherfformiad gweinyddol.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Trwy adborth a gafwyd mewn digwyddiad rhanddeiliaid ym mis Hydref 2017, nododd Arolygiaeth Gynllunio Cymru ddiddordeb mewn arferion gwaith a gweithdrefnau arolygwyr. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad llai o faint ym mis Chwefror hefyd, yn Aberystwyth a Llandudno. Roedd y digwyddiadau hyn yn canolbwyntio ar faterion ymarferol ac roeddent wedi'u hanelu at ymarferwyr. Yn dilyn adborth cadarnhaol, cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid mwy o faint yn hydref 2018. Mae cyfarwyddwr Arolygiaeth Gynllunio Cymru ac arolygwyr eraill hefyd wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau a drefnwyd gan sefydliadau eraill, ac maent yn parhau i ddarparu hyfforddiant ar gyfer aelodau awdurdodau cynllunio lleol ar y dull penderfynu (yn fwy diweddar gyda chynghorau Castell-nedd Port Talbot ac Ynys Môn).

Adborth gan gwsmeriaid

Mae'r adborth y mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru wedi'i dderbyn gan gwsmeriaid yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn fwy na bodlon â'r ffordd y caiff prosesau gweinyddol eu trin ac ansawdd penderfyniadau arolygwyr. Roedd yr adborth hefyd yn cynnwys y ffaith y credir bod Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn ddiduedd, yn deg, yn agored, yn broffesiynol, yn gyson ac yn gyflym ac y gellir ymddiried ynddi. Fodd bynnag, dywed Arolygiaeth Gynllunio Cymru y gallai wneud mwy o ran barn y cyhoedd ar a yw'n gwrando ar y sylwadau y mae'n eu derbyn.

Gwelliant parhaus

Gofynnir i arolygwyr ymrwymo'n llawer gynt i apêl bellach, sy'n galluogi'r prif broblemau mewn dadl i gael eu nodi'n gyflym, er mwyn hwyluso cymaint â phosibl o amser paratoi ar gyfer yr apêl.

Mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn gweithio'n electronig ar gyfer y mwyafrif o achosion, sy'n caniatáu i arolygwyr, partïon i apêl ac awdurdodau cynllunio lleol fel ei gilydd gael mynediad at ddogfennau apelio'n gyflym ac yn haws drwy system rheoli gwaith achos Arolygiaeth Gynllunio Cymru a'r Porth Gwaith Achos Apeliadau (ACP).

Defnyddir ymweliadau safle sydd angen mynediad yn eang, gan leihau'r effaith ar adnoddau'r awdurdod cynllunio lleol a chynyddu hyblygrwydd adnoddau arolygwyr.

O ran ardaloedd i'w datblygu yn y dyfodol, mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn sylweddoli y gallai wneud mwy i wella ansawdd ei phrosesu gweinyddol ac eglurder penderfyniadau.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wrthi'n gwneud Prosiect Trawsnewid ar hyn o bryd hefyd, sy'n ceisio cyflawni'r blaenoriaethau strategol a nodwyd yng Nghynllun Strategol Arolygiaeth Gynllunio Cymru ar gyfer 2017–2020. Mae'r amcanion a osodir ar gyfer Arolygiaeth Gynllunio Cymru fel a ganlyn:

- bod yn esiampl o ddarparwr gwasanaethau cyhoeddus i gwsmeriaid, gan hyrwyddo didwylledd a thryloywder
- bod yn sefydliad sy'n cael ei weld fel un effeithlon ac effeithiol

- bod yn y chwarter uchaf ar gyfer ymgysylltu â staff ar draws y Gwasanaeth Sifil

Mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn canolbwyntio ar ffrwd waith Trawsnewid Darpariaeth Weithredol, y mae'n rhagweld y bydd yn creu newid cadarnhaol yn ei phrosesau cyflenwi o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer apeliadau cynllunio.

3 – PERFFORMIAD YMGYNGOREION STATUDOL


Mae'r adran hon yn ystyried perfformiad ymgynghoreion statudol wrth hwyluso gweithrediad llyfn y system gynllunio yng Nghymru.

Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn gosod dyletswydd ar ymgynghoreion statudol i ddarparu ymateb o sylwedd ar gyfer ymgynghoriadau cyn ymgeisio am ddatblygiadau mawr ac ar gyfer ymgynghoriadau gan awdurdodau cynllunio lleol ar geisiadau cynllunio a gyflwynir.

Diffinnir ymgynghoreion statudol yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd) fel y sefydliadau hynny y dylid eu hysbysu ynghylch cynigion datblygu yn ystod y camau cyn ymgeisio ac ôl-ymgeisio, er mwyn ystyried eu harbenigedd arbenigol mewn agweddau penodol ar y cynigion. Mae'r arbenigedd technegol a'r mewnwelediad a gynigir gan eu hymatebion i ymgynghoriadau yn cyfrif llawer wrth bennu ceisiadau cynllunio.

Dyma'r ail flwyddyn yr ydym wedi adrodd ar berfformiad gweithredol ymgynghoreion statudol. Mae Gorchymyn 2012 yn nodi'r amserlen ar gyfer cyflwyno ymateb o sylwedd.

YMGYNGHORIADAU CYN YMGEISIO



Ffigur 3 – Canran yr ymgynghoriadau cyn ymgeisio yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserau gofynnol, fesul grŵp ymgynghoreion

Dengys Ffigur 3 y perfformiad cyffredinol ar draws pum grŵp o ymgynghoreion statudol. Mae'r grŵp "arall" yn cynnwys Glandŵr Cymru, yr Awdurdod Glo, Network Rail, Chwaraeon Cymru a'r Ymddiriedolaeth Theatrau. Mae grŵp "Llywodraeth Cymru" yn cynnwys Cadw yn ogystal â chyfarwyddiaethau Amaethyddiaeth a Phriffyrdd Llywodraeth Cymru.

Yn gyffredinol, roedd y perfformiad wedi gwella ar draws bron pob grŵp o'i gymharu â'r cyfnod adrodd diwethaf.

Cafodd yr Awdurdod Glo, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Chwaraeon Cymru, Glandŵr Cymru a'r Ymddiriedolaeth Theatrau gyfradd ymateb o 100% i'w hymgyngoriadau cyn ymgeisio o fewn y cyfnod adrodd. Mae Dŵr Cymru a Chwmni Severn Trent Water hefyd wedi cyflawni cyfraddau ymateb prydlon eithriadol o uchel ar ymgynghoriadau cyn ymgeisio, o 99.6% a 100% yn ôl eu trefn.

O'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac ymgylchoreion "eraill" wedi gwella'u perfformiad ychydig o safonau perfformiad a oedd eisoes yn uchel. Parhaodd perfformiad Llywodraeth Cymru i fod yn sefydlog, oherwydd er i ganran yr ymatebion cyn ymgeisio ddisgyn 0.7%, mae hyn yn cyfateb i lai nag un achos mewn llwyth gwaith cymharol isel. Mae'r perfformiad yn parhau i fod yn uchel iawn, gyda 95.4% o'r ymatebion yn cael eu hanfon ar amser. Gwnaeth tîm Tir Amaethyddol Llywodraeth Cymru ymateb i 88.9% (16 o 18) o ymholiadau cyn ymgeisio ar amser, ac ymatebodd Cyfarwyddiaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru i 100% (34 o 34) o'r ymgynghoriadau cyn ymgeisio ar amser.


Gwelwyd gwelliant sylweddol ym mherfformiad crybwylledig yr awdurdodau priffyrdd lleol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yr ystadegyn uchod ar gyfer awdurdodau priffyrdd lleol yw'r gyfradd ymateb ar gyfer yr holl geisiadau am ymgynghoriad cyn ymgeisio a dderbyniwyd ar draws 16 o'r 22 awdurdod ledled Cymru, oherwydd methodd yr awdurdodau lleol canlynol ddarparu ystadegau ar eu perfformiad (ac eithrio Cyngor Bro Morgannwg, ar gyfer naill ai'r cyfnod adrodd hwn neu'r un diwethaf):

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

O ran yr awdurdodau priffyrdd lleol hynny a ddarparodd ddata, mae eu prydlondeb wrth ymateb i ymgynghoriadau cyn ymgeisio'n uchel iawn yn gyffredinol ar gyfer y cyfnod adrodd hwn, gyda chyfradd perfformiad gyffredinol o 95.7% wrth ymateb ar amser i ymgynghoriadau cyn ymgeisio, oddeutu 431 o 458 o achosion. Rhaid canmol y gwelliant hwn yn y gwasanaeth, ond mae rhai awdurdodau priffyrdd lleol wedi dewis lleihau neu dynnu'n ôl pob gwasanaeth cyn ymgeisio o ganlyniad i brinder adnoddau. Er enghraifft, nid yw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Powys yn darparu unrhyw gyngor cyn ymgeisio, yn dilyn penderfyniad gan Gyfarwyddwr Priffyrdd y cyngor yn 2017.

O'r awdurdodau priffyrdd lleol a adroddodd yn ystod y cyfnod adrodd hwn a'r un blaenorol, Cyngor Dinas Casnewydd sydd wedi gwella fwyaf, gan gynyddu ei berfformiad ar amser o 48.6% i 83.2%. Mae'r cyngor yn cofnodi'r cynnydd hwn mewn perfformiad, serch pwysau sylweddol ar effeithlonrwydd ac adnoddau, a chynnydd yn nifer yr ymgynghoriadau cyn ymgeisio. Noda'r cyngor mai'r prif reswm dros fethu â darparu ymateb ar amser yw pan na chaiff gwybodaeth bwysig ei darparu gan y darpar ymgeisydd a fyddai'n llywio'r ymateb. Mae'r cyngor wrthi'n mabwysiadu canllawiau cynllunio ategol, a gobeithir y bydd y rhain yn hwyluso ansawdd cyflwyniadau cyn ymgeisio yn y dyfodol.

YMGYNGHORIADAU AR GEISIADAU CYNLLUNIO



Ffigur 4 – Canran yr ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserau gofynnol, fesul grŵp ymgynghoreion

Mae ymgynghoreion statudol yn parhau i gyflawni safonau uchel o berfformiad wrth ymateb i ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio, gyda'r awdurdodau cynllunio lleol a'r awdurdodau prifffyrdd lleol yn gwneud gwelliannau i safonau'r gwasanaethau drwy Gymru gyfan. Mae nifer y ceisiadau cynllunio y caiff awdurdodau cynllunio lleol eu hymgyngori arnynt fel ymgynghoreion statudol yn gymharol isel, ar 121 ledled Cymru ar gyfer y cyfnod adrodd hwn. Serch hyn, croesewir y gwelliant mewn perfformiad.

Yn yr un modd ag ymgynghoriadau cyn ymgeisio, mae Dŵr Cymru a Chwmni Severn Trent Water yn parhau i gadw at amserau ymateb rhagorol ar geisiadau cynllunio, ar 99.9% a 100% yn ôl eu trefn. Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymateb ar amser i 99.8% o'r ymgynghoriadau statudol ar geisiadau cynllunio, gan gynnwys Cadw, a ymatebodd o fewn 21 o ddiwrnodau ar 955 o 993 o geisiadau (96.2%).

Gwnaeth Network Rail ymateb i 84.4% (195 o 231) o ymgynghoriadau o fewn y cyfnod gofynnol o 21 diwrnod. Pan oedd oedi, noda Network Rail fod hyn o ganlyniad i naill ai angen cynnal ymgynghoriadau mewnol, megis gyda rheolwyr croesfannau rheilffordd neu beirianwyr diogelu asedau, neu o ganlyniad i brinder staff oherwydd gwyliau blynyddol.

Yn yr un modd â'r ymatebion cyn ymgeisio, nid yw'r ystadegyn uchod ar gyfer yr awdurdodau prifffyrdd lleol yn gyflawn oherwydd methiant yr awdurdodau canlynol i gydymffurfio â'r ddyletswydd sydd wedi ei gosod arnynt gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 i ddarparu adroddiad blynyddol ar eu prydlondeb i ymdrin ag ymgynghoriadau o'r fath:

- Cyngor Sir Ddinbych

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Bro Morgannwg

Ar sail y datganiadau oddi wrth yr 18 o awdurdodau priffyrdd lleol eraill, gwnaethant ymateb i 11,457 o geisiadau cynllunio, gyda 9,145 o'r ymatebion hynny'n cael eu cyflwyno o fewn y cyfnod o 21 diwrnod. O'r awdurdodau hynny, cyflawnodd chwech ohonynt gyfradd ymateb o fwy na 90% o fewn yr amserau gofynnol, a chyflawnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent gyfradd ymateb o 100%, serch 50% o ostyngiad yn y tîm staff a oedd yn gyfrifol am ymateb i'r ymgynghoriadau hyn.

Adrodda Adran Briffyrdd Cyngor Sir Powys mai dim ond 40.2% o'r ymgynghoriadau statudol yr ymatebodd iddynt ar amser, ond mae'r cyngor yn cyfiawnhau ei berfformiad drwy nodi bod y ffigurau hyn yn seiliedig ar gyfnod ymateb o 14 diwrnod a osodwyd yn lleol ac nad yw'n gallu darparu ffigurau 21 diwrnod. Rhagwelir y byddai perfformiad crybwylledig y cyngor yn gwella'n sylweddol pe bai'n adrodd ar gyfnod o 21 diwrnod yn lle, a nodir bod y cyngor hefyd wedi adrodd ei fod wedi penderfynu peidio ag ymateb i ymgynghoriadau cyn ymgeisio er mwyn gwella ei berfformiad ar ymatebion i geisiadau.

Adrodda Cyfarwyddiaeth Briffyrdd Cyngor Caerffili hefyd fod hinsawdd ariannol y cyfnod adrodd wedi bod yn "heriol tu hwnt" iddynt. Disgwylir i'r her hon o ran adnoddau barhau, felly mae'n rhagweld y bydd ei pherfformiad ei hun yn dirywio yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r cyngor wedi llwyddo i gyflawni cyfradd ymateb o 99% "ar amser" ar gyfer ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio yn ystod y cyfnod adrodd.

CASGLIAD

Mae Deddf 1990 yn gosod dyletswydd ar ymgynghoreion statudol i ymateb i ymgynghoriadau ac, ar sail yr adroddiadau a dderbyniwyd, mae'r ymgynghoreion yn ymateb mewn modd amserol yn y mwyafrif o achosion.

Mae ymatebion amserol ac effeithiol i ymgynghoriadau cyn ymgeisio yn galluogi datblygwr i ddiwygio neu addasu cais cynllunio cyn ei gyflwyno, er mwyn sicrhau bod y cais yn ystyried unrhyw broblemau technegol neu broblemau o ran seilwaith a godwyd gan yr ymgynghoreion, ac felly mae'n fwy tebygol o gael ei gymeradwyo. Dylai pob ymgynghorai ddisgwyl gweld buddion ei gyngor ar ôl ei gyflwyno. Ar y cyfan, pan oedd ymatebwyr wedi rhoi sylwadau ar ansawdd y cyflwyniadau, canfyddont fod y broses cyn ymgeisio'n gwella'r ansawdd.

Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd i adrodd a gyflwynwyd gan Ddeddf 2015 yn ymestyn i roi sylwadau ar brydlondeb ymatebion ymgynghoriadau, ac nid yw'n ymestyn i ansawdd y cyflwyniadau. O ganlyniad, mae'r sylwadau a ddarparwyd ar ganlyniad ansoddol y broses cyn ymgeisio braidd yn gyfyngedig, ac nid oes modd dod i gasgliadau am rinweddau ansoddol y broses ymgynghori cyn ymgeisio drwy ystyried yr adroddiadau a gyflwynwyd gan ymgynghoreion statudol. Bydd angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy o waith i ddeall a yw'r sylwadau sy'n cael eu gwneud yn ystod y cam cyn ymgeisio yn cael eu hadlewyrchu'n llawn mewn cyflwyniadau ffurfiol.

Dengys yr ystadegau uchod fod tueddiad ymhlith adrannau priffyrdd i fethu ag ymateb i ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio mewn ychydig dros 20% o achosion ledled Cymru.

Mae'r perfformiad hwn ychydig yn well na pherfformiad y flwyddyn flaenorol, ond gwnaeth nifer o adrannau priffyrdd fynegi eu pryderon ynghylch amgylchedd adnoddau heriol iawn o fewn llywodraeth leol, gan ragweld y byddai perfformiad eu hawdurdod yn dirywio yn y dyfodol.

Mae awdurdodau cynllunio lleol yn gweithio'n agos gyda'u hadrannau priffyrdd priodol i gyflwyno dull cydlynol o weithredu datblygiadau a seilwaith trafndiaeth. Er y saif adrannau priffyrdd y tu allan i adrannau cynllunio'n aml, mae'n amlwg fod pwysau y tu allan i'r system gynllunio yn effeithio ar allu awdurdodau cynllunio lleol i gyflawni. Gan y disgwylir i'r pwysau hyn barhau, disgwylir hefyd i'r cyfyngiadau ar gyflenwi barhau.

Bydd angen i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau gofalus ynghylch lefel yr adnoddau y maent yn ei dyrannu i adrannau priffyrdd, oherwydd mae datblygiadau a buddsoddiadau lleol yn hanfodol i alluogi ffyniant i bawb ac yn gallu cyflwyno oediadau i brosiectau buddsoddi.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i wella ansawdd y ceisiadau cynllunio a gyflwynir, ac mae ymgynghoriadau cyn ymgeisio yn parhau i fod yn hanfodol i gyflawni'r nod hwn. Mae methu ag ymateb i ymgynghoriad statudol yn rhwystr difrifol o fewn y system gynllunio. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cymryd camau pan fydd awdurdodau'n methu ag ymateb i ymgynghoriadau statudol mewn modd amserol ac effeithlon.

4 – PERFFORMIAD AWDURDODAU CYNLLUNIO LLEOL

Mae'r system gynllunio'n hanfodol i weithrediad polisiau lleol ar gyfer yr amgylchedd adeiledig a'r amgylchedd naturiol ar lefel lleol. Mae'r system gynllunio'n gyfrifol am y penderfyniadau defnydd tir ar gyfer y lleoedd y mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwarae ynddynt. Gwaith polisiau a phenderfyniadau cynllunio lleol yw cyflwyno canlyniadau i feysydd ar draws sbectrwm llywodraeth lleol, gan gynnwys iechyd, llesiant, adfywio, hamdden, addysg a chwarae. Er mwyn i'r system gynllunio chwarae ei rhan yng ngweithrediad dyheadau lleol, rhaid iddi fod mewn cyflwr iach.

Mae'r adran hon yn adolygu perfformiad y 25 awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru, fel y'i mesurwyd gan y Fframwaith Perfformiad Cynllunio. Daw'r canlyniadau o'r tabl Fframwaith Perfformiad a gyhoeddwyd, sy'n ymdrin â'r cyfnod rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018.

Newidiadau i ddangosyddion a thargedau perfformiad

Mae dangosyddion y Fframwaith Perfformiad a'i dargedau'n cael eu hadolygu'n flynyddol. Cynhaliwyd y cyfarfod adolygu diweddaraf ar 4 Gorffennaf 2018, a chytunwyd ar nifer o ddiwygiadau i'r Fframwaith Perfformiad gyda chynrychiolwyr o awdurdodau cynllunio lleol Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys:

- **Cytundebau cyflenwi ar gyfer adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol** – Cyflwynwyd dangosydd newydd i adlewyrchu'r angen i adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol mewn modd amserol. Mae Rheoliad 41 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 yn gofyn i awdurdodau cynllunio lleol ddechrau adolygiad llawn o'u Cynlluniau Datblygu Lleol bob pedair blynedd o'r dyddiad y mabwysiadwyd y cynllun cyntaf.

Mae'r dangosydd perfformiad newydd yn mesur cydymffurfiaeth â Rheoliad 41, yn enwedig prydlondeb cyflwyno cytundeb cyflenwi i Weinidogion Cymru. Bydd cytundebau cyflenwi a gyflwynir llai na 12 mis ar ôl i awdurdod cynllunio lleol gyflawni Rheoliad 41 yn cael eu hystyried fel perfformiad "da", a bydd y rhai hynny a gyflwynir mwy na 18 mis ar ôl cyflawni Rheoliad 41 yn cael eu hystyried fel rhai o fewn y band perfformiad "gwella".

- **Oedi ar gynnydd wrth adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol, a fesurir yn erbyn y cytundeb cyflenwi** – Mae hwn yn ddangosydd newydd, yn debyg i'r dangosydd sy'n bodoli eisoes ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol. Ar ôl cyflwyno cytundeb cyflenwi ar gyfer adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, bydd awdurdodau cynllunio lleol yn cael eu mesur ar eu gallu i gydymffurfio â'r amserlenni a osodwyd yn y cytundeb cyflenwi ar gyfer pedwar cam allweddol o adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol – ymgynghoriad cyn-adneuo, adneuo, cyflwyno i'w archwilio a'i fabwysiadu.

Dim ond y cytundeb cyflenwi cyntaf fydd yn cael ei ddefnyddio i fesur perfformiad, ac ni fydd cytundebau cyflenwi diwygiedig yn cael eu hystyried ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn, fel yw'r achos eisoes gyda'r dangosydd cyfatebol ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol gwreiddiol.

Bydd yr awdurdodau cynllunio lleol sy'n cyrraedd y camau a nodwyd o fewn tri mis o'r dyddiadau a nodwyd yn eu cytundeb cyflenwi cyntaf ar gyfer adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu hystyried fel rhai sydd wedi perfformio'n "dda", a bydd y

rhai hynny nad ydynt yn cyrraedd y camau hyn yn cael eu hystyried fel rhai sydd angen eu gwella.

- **Canran y ceisiadau caniatâd adeilad rhestredig a benderfynir "ar amser" –** Mae'r ystadegau ar nifer y ceisiadau caniatâd adeilad rhestredig a benderfynir gan awdurdodau cynllunio lleol, a nifer y rhai a benderfynwyd "ar amser", wedi eu casglu eisoes. Cyflwynir y dangosydd hwn er mwyn amlygu'r gwasanaeth cynllunio pwysig hwn, er nad yw ceisiadau caniatâd adeilad rhestredig yn denu unrhyw ffi ymgeisio.

Mae bandiau perfformiad cyfwerth â cheisiadau cynllunio wedi'u cyflwyno ar gyfer y dangosydd newydd hwn, fel ffordd o fesur perfformiad "ar amser". Pan na fydd gan awdurdodau cynllunio lleol awdurdod dirprwyedig gan Cadw i bennu ceisiadau caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer adeiladau rhestredig Gradd II, yna tybir mai'r dyddiad y trosglwyddir y cais i Cadw am benderfyniad yw'r dyddiad "ar amser", oherwydd mae'r cais y tu allan i reolaeth yr awdurdod cynllunio lleol erbyn y cam hwn.

- **Canran yr achosion gorfodaeth yr ymchwilir iddynt mewn 84 o ddiwrnodau –** Mae targedau perfformiad newydd cytunedig yn mynd i gael eu gosod ar gyfer y dangosydd gorfodi cyfredol hwn. Caiff awdurdodau cynllunio lleol sy'n ymchwilio i 80% neu ragor o achosion gorfodaeth o fewn 84 o ddiwrnodau eu hystyried fel rhai sy'n perfformio i safon "dda", a chaiff y rhai hynny sy'n ymchwilio i 60% neu lai o achosion mewn 84 o ddiwrnodau eu hystyried fel rhai sydd angen gwella eu gwasanaeth. Mae diffiniad y dangosydd perfformiad hwn wedi'i fireinio yn dilyn gwaith datblygu gan Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, er mwyn sicrhau adroddiadau effeithiol.
- **Yr amser a gymerwyd i gymryd camau gorfodi cadarnhaol –** Mae'r dangosydd hwn wedi'i fireinio ers ei gyflwyniad, ac ers i adborth anecdotaidd awgrymu fod amwysedd ynghylch y ffordd yr oedd y dangosydd yn cael ei ddehongli'n lleol. Mae Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru wedi gwneud gwaith ar ehangu ac egluro'r canllawiau ar y dangosydd hwn er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei fesur a'i adrodd mewn modd effeithiol a chyson. Gan nad yw'r data presennol hyd yn hyn yn ddibynadwy, nid oes targedau perfformiad wedi'u gosod ar gyfer y dangosydd hwn.

Daeth y newidiadau hyn i rym o fis Ebrill 2018 ymlaen, a byddant yn cael eu cyflwyno yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cymru Gyfan nesaf.

Adnoddau a chydnerthedd

Mae adnoddau'n parhau i fod yn her fawr i awdurdodau cynllunio lleol yng ngŵydd y cyni sy'n parhau yn sector cyhoeddus Llywodraeth y DU. Mae nifer o awdurdodau lleol wedi myfyrio ar realiti toriadau parhaus o un flwyddyn i'r llall ar gyllidebau gweithredu neu gyllidebau "gwastad", lle y caiff cyllid canolog ei leihau i gyd-fynd â'r incwm o ffioedd ceisiadau cynllunio. Mae llawer o awdurdodau cynllunio lleol wedi adrodd eu bod wedi dibynnu ar gadw swyddi'n wag, neu ddileu swyddi'n wirfoddol neu leihau oriau gwaith er mwyn cyrraedd targedau i leihau'r gyllideb.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cynhaliodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol ymarferiad ymchwil er mwyn nodi'r cyfraniad ariannol y mae'r system gynllunio'i ei wneud i gymunedau lleol. Roedd y gwaith ymchwil, "Gwerth Cynllunio", a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018, yn

cynnwys datblygu pecyn cymorth a oedd yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i fesur y gwerth y mae'r system gynllunio yn ei ychwanegu i'r gymuned leol, gan gynnwys y cynnydd mewn gwerth tir yn ogystal â gwariant uniongyrchol ac anuniongyrchol. Daeth y gwaith ymchwil i'r casgliad fod y system gynllunio wedi cyfrannu £2.3 biliwn i economi Cymru yn ystod 2016/17.

Er mai llywodraeth leol sy'n penderfynu sut y mae'n dyrannu adnoddau i flaenoriaethau lleol, mae gwaith ymchwil y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn dangos yr effaith gadarnhaol sylweddol y gall y system gynllunio ei chael ar ffyniant a thwf lleol. Wrth ystyried arbedion cyllidebol, dylai llywodraeth leol ystyried sut y bydd timau cynllunio heb ddigon o adnoddau yn llai abl i ddod â'r twf hwn i'r economi leol.

Mae ffioedd cynllunio hefyd yn ffynhonnell incwm fawr i'r system gynllunio. Nododd gwaith ymchwil ar gyfer llywio Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 fod y trefniadau ffioedd cynllunio yn adennill oddeutu 60% o gost prosesu ceisiadau.

Dylai'r sawl sy'n gallu elwa o gael caniatâd dalu am ystyried y caniatâd, ond wrth osod ffioedd priodol ar gyfer ceisiadau cynllunio, mae angen edrych yn bragmataidd ar fforddiadwyedd a chyfranoldeb ffioedd fel cyfran o'r gost adeiladu. Mae angen gwneud gwaith ymchwil gofalus a manwl cyn cyflwyno unrhyw newidiadau i'r ffioedd cynllunio.

Mae gwaith eisoes wedi'i wneud gan y Gwasanaeth Cyngori ar Gynllunio, mewn partneriaeth ag awdurdodau cynllunio lleol Cymru, i nodi'r gost o ddarparu gwasanaethau ceisiadau cynllunio ac incwm y ffioedd cysylltiedig, dros gyfnod o bedair blynedd, er mwyn dangos y gost o ddarparu'r gwasanaeth presennol. Mae angen gwneud rhagor o waith i nodi lle y gellir gwneud newidiadau systemig er mwyn symleiddio a gwella'r prosesau deddfwriaethol a gweinyddol ar gyfer penderfynu ar geisiadau, ac er mwyn deall effaith y newidiadau hyn ar gost.

Bydd y dystiolaeth a gesglir gan y gwaith hwn yn cael ei defnyddio i archwilio opsiynau ar gyfer symud ffioedd ceisiadau cynllunio'n agosach at fodel niwtral o ran cost. Bydd ymgysylltiad awdurdodau cynllunio lleol yn hanfodol i'r gwaith hwn. Bydd hefyd angen y dystiolaeth hon i gefnogi'r Aseiad o'r Effaith Reoleiddio ar gyfer newidiadau i'r ffioedd ceisiadau cynllunio yn y dyfodol.

Meysydd o arloesedd

Serch amgylchedd ariannol heriol tu hwnt, mae awdurdodau cynllunio lleol yn parhau i geisio rhagori, ac yn cydweithio ac yn ymdrechu'n aml i ddilyn arferion gorau, neu ffyrdd newydd o weithio, sy'n cadw neu'n gwella lefel y gwasanaeth y maent yn ei darparu i gwsmeriaid. Mae pob un o'r enghreifftiau isod wedi ei amlygu gan yr awdurdod cynllunio lleol priodol fel "arfer da", a byddwn yn annog awdurdodau cynllunio lleol i edrych ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan eu cymheiriaid er mwyn ysbrydoli eu hymdrechion eu hunain i wella'u hunain yn barhaus.

Safleoedd strategol – mae nifer o awdurdodau cynllunio lleol yn gweithio'n galed i baratoi'r safleoedd strategol a nodwyd yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer eu datblygu. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrthi'n archwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno safleoedd strategol, gan gynnwys ceisio cael cyllid Ewropeaidd a chyfeirio prosiectau a datblygiadau'r cyngor i'r safleoedd hynny. Gwnaeth Cyngor Dinas a Sir Abertawe gomisiynu adolygiad annibynnol o safleoedd strategol yn ei Gynllun Datblygu Lleol adneuo er mwyn "gwirio'r synnwyr" y tu ôl i ostyngiadau hyfywedd y cyngor.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi penodi Tîm Datblygu Safleoedd Strategol, sy'n cynnwys swyddogion allweddol, i fynd i'r afael â'r dasg o helpu datblygwyr gyda'u gallu i gyflawni safleoedd strategol Cynllun Datblygu Lleol Conwy.

Ffrydiau ariannu eraill – mae nifer o awdurdodau cynllunio lleol wedi adrodd eu bod yn gwneud gwaith archwilio i nodi opsiynau i godi tâl am ddarparu gwaith opsiynol "gyda gwerth ychwanegol" ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau cynllunio. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Uwchraddio ceisiadau deiliaid tai yn gyflym (Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bro Morgannwg)
- Cynlluniau tebyg ar gyfer caniatadau adeilad rhestredig, ceisiadau bach a thystysgrifau cyfreithlondeb (Cyngor Sir Fynwy)
- Codi tâl am drawsgludo a chadarnhau pridiannau tir (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot)

Defnyddio gwasanaethau TGCh i sicrhau arbedion effeithlonrwydd – mae nifer o awdurdodau cynllunio lleol wedi adrodd eu bod yn diweddarau eu system TGCh er mwyn hwyluso gwaith mwy effeithiol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael system newydd i alluogi gweithio o bell neu weithio ystwyth a chamera i edrych ar safleoedd i'w hystyried yn ddiweddarach o bell.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi dewis yr un system TGCh â Chyngor Dinas a Sir Abertawe, gyda'r nod o gydweithio yn y dyfodol. Mae Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Dinas a Sir Abertawe hefyd yn gweithredu cynllun achredu asiantau ar y cyd, gan safoni'r gwaith o ymgysylltu ag asiantau a disgwyliadau asiantau sy'n gweithio yn y ddau awdurdod cynllunio lleol.

Cydweithio uniongyrchol – mae nifer o brosiectau ar waith i hwyluso dulliau cyflenwi cydweithredol neu ranbarthol. Mae rhai o'r rhain yn fodolau cyflenwi gwirioneddol ranbarthol, fel y gwasanaethau mwynau a gwastraff parhaus yng ngogledd Cymru (Cyngor Sir y Fflint) ac yng ngorllewin Cymru (Cyngor Sir Caerfyrddin).

Mae cynghorau sir Ynys Môn a Gwynedd yn parhau i gynnal Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd er mwyn gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol ar ran y ddau awdurdod cynllunio lleol. Mae Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro'n parhau i weithio'n agos ar ddatblygu polisi a rhannu adnoddau ac arbenigedd. Mae Cyngor Sir Fynwy hefyd yn adrodd ei fod yn agos at gytuno ar gytundeb lefel gwasanaeth i ddarparu arbenigedd ar faterion cadwraeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

Mewn enghreifftiau eraill, mae gwaith yn cael ei gyflawni i safoni a chyflwyno arferion cyffredin. Mae Grŵp Swyddogion Polisi Gogledd Cymru yn gweithio ar safoni arferion a gweithdrefnau lleol ar gyfer ceisiadau treftadaeth adeiledig, gan gynnwys ei ryngwyneb â Cadw, a fydd yn cynorthwyo wrth symleiddio achosion o'r fath a chreu gwydnwch hefyd drwy alluogi gwaith ar draws awdurdodau. Mae Grŵp Swyddogion Polisi Gogledd Cymru hefyd yn gweithio ar brosiect tebyg ar gyfer ceisiadau treftadaeth naturiol, a rhagwelir y bydd y ddau brosiect hyn yn cael eu gweithredu ledled Cymru ar ôl iddynt gael eu cwblhau.

Ymyrraeth uniongyrchol yn y farchnad dai – mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn ystyried defnyddio pwerau benthyca'r cyngor er mwyn cynorthwyo wrth ddod

â safleoedd yn eu blaen ar gyfer eu datblygu lle y bo'r farchnad dai sector preifat wedi methu.

Dadansoddi perfformiad – mae'r lefel o fanylder a gwybodaeth a ddefnyddiwyd i lywio rhai Adroddiadau Perfformiad Blynyddol yn sylweddol a chaiff ei groesawu bod rhai awdurdodau cynllunio lleol, megis Cyngor Caerdydd, wedi ymgorffori eu Hadroddiad Perfformiad Blynyddol, a'i ganfyddiadau, i'w cylch gwella gwasanaeth blynyddol. Mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cyflwyno gwybodaeth am berfformiad gwasanaeth a chanlyniadau cynllunio mewn ffordd hygyrch, gan helpu darllenwyr yr adroddiad i ddeall yr agweddau cyflawnadwy sy'n deillio o wasanaeth cynllunio'r cyngor a'r heriau mae'n gweithio i'w goresgyn.

TROSOLWG O BERFFORMIAD CYFARTALOG CYMRU YN ERBYN YR HOLL DDANGOSYDDION



MESUR	DA	GWEDDOL	GWELLA
Llunio cynllun			
1. A oes cynllun datblygu cyfredol ar waith sydd o fewn cyfnod y cynllun?	Oes		Nac oes
2. Gwyriad o ran paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol o'r dyddiadau a nodwyd yn y cytundeb cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd	<12	13–17	18+
3. Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi eu llunio yn dilyn mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol	Oes		Nac oes
4. Y nifer o awdurdodau cynllunio lleol gyda chyflenwad tir ar gyfer tai am bum mlynedd neu fwy			
Effeithlonrwydd			
5. Y ganran o geisiadau "mawr" a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol	60+	60.1–59.9	<50
6. Yr amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau "mawr", mewn diwrnodau			
7. Canran yr holl geisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol	80+	70.1–79.9	<70
8. Yr amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau, mewn diwrnodau	<67	67–111	112+
9. Y ganran o geisiadau caniatâd adeilad rhestredig a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol	80+	70.1–79.9	<70
Ansawdd			
10. Y ganran o benderfyniadau a wnaed gan aelodau yn erbyn cyngor swyddog	<5	5–8.9	9+
11. Y ganran o apeliadau a gafodd eu gwrthod	66+	55.1–65.9	<55
12. Ceisiadau ar gyfer costau mewn apeliadau Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn ystod y cyfnod adrodd	0	1	2

2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
Oes	Oes	Oes	Oes
47	39	58	67
Oes	Oes	Oes	Oes
7	8	6	7
24	35.3	59	67.4
206	212.7	250.2	240.1
72.7	76.6	86.7	88.5
76.4	77.2	75.9	80.7
40.8	38.1	63.3	65.4
10.1	9.0	10.9	8.6
65.6	66.5	60.9	62.6
0	0	0	0

MESUR	DA	GWEDDOL	GWELLA
Ymgysylltu			
13. Ydy'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd annerch y pwyllgor cynllunio?	Ydy		Nac ydy
14. A oes gan ar yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd?	Oes		Nac oes
15. A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio y gall aelodau o'r cyhoedd gael mynediad atynt ac olrhain eu cynnydd (a gweld eu cynnwys)?	Oes	Yn rhannol	Nac oes
Gorfodi			
16. Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt (gan benderfynu a oes achos o dorri rheolaethau cynllunio wedi digwydd ac, os felly, a oes camau gorfodi yn gyfleus) o fewn 84 diwrnod	80+	70.1–79.9	<70
17. Amser cyfartalog a gymerwyd i gymryd camau gorfodi cadarnhaol, mewn diwrnodau			

2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
Ydy	Nac ydy	Ydy	Nac ydy
Oes	Oes	Oes	Oes
Oes	Oes	Oes	Oes
65.8	79.4	85.0	80.6
			184.6

ADRAN 1 – LLUNIO CYNLLUN



Ffigur 5 – Awdurdodau cynllunio lleol gyda chynllun datblygu mabwysiedig ym mis Mawrth 2017


Mae Ffigur 5 yn dangos bod gan 22 allan o'r 25 awdurdod cynllunio lleol Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig. Mae hyn yn rhoi cwmpas cynllun cyfredol i Gymru o 88%. Mae tri awdurdod cynllunio lleol sydd â Chynllun Datblygu Unedol ar gael.

Gwnaeth Cyngor Abertawe gyflwyno ei Gynllun Datblygu Lleol i'w archwilio ym mis Gorffennaf 2017. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn dal i fod ar y cam archwilio a disgwylir iddo gael ei gwblhau cyn bo hir, gan arwain at ei fabwysiadu yn gynnar yn 2019.

Gwnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gyflwyno ei Gynllun Datblygu Lleol drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Ebrill 2018, ychydig y tu allan i'r cyfnod adrodd.

Gwnaeth Cyngor Sir y Fflint gyflwyno ei gytundeb cyflenwi Cynllun Datblygu Lleol i Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2014 ac ymgynghorodd ar y strategaeth ddewisol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Tachwedd 2017.


Mae'n rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol, ar ddechrau'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol, gyhoeddi cytundeb cyflenwi, sy'n amlinellu sut y bydd yn paratoi'r cynllun, gan gynnwys gosod amserlen sy'n nodi camau allweddol y broses. Mae'r dangosydd hwn yn mesur llithriad o gerrig milltir allweddol a amlinellir yn amserlen wreiddiol y cytundeb cyflenwi. Mae'n berthnasol yn unig i'r awdurdodau cynllunio lleol nad oeddent wedi mabwysiadu eu Cynllun Datblygu Lleol eto ym mis Mawrth 2018.



Ffigur 6 – Oedi o ran paratoi Cynllun Datblygu Lleol, mewn misoedd

Mae'r cyfnod yn cael ei fesur gan y gwahaniaeth, mewn misoedd, rhwng y dyddiad y mae'r cytundeb cyflenwi cyntaf yn cynnig y bydd Cynllun Datblygu Lleol yn cyrraedd un o'r pedwar cam allweddol, a'r dyddiad gwirioneddol pan fo'r Cynllun Datblygu Lleol yn cyrraedd y cam perthnasol. Y pedwar cam allweddol yw dechrau'r ymgynghoriad ar y strategaeth ddewisol, dechrau'r ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol adneuo, cyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol i'w archwilio, a mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol.

Yn achos Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, mae'r cytundeb cyflenwi cychwynnol yn ymwneud â Chynllun Datblygu Lleol cyntaf y cyngor, a gafodd ei dynnu yn ôl ar ôl ei archwilio yn 2012. Gwnaeth y cyngor gyflwyno ei ail ddrafft o'r Cynllun Datblygu Lleol adneuo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Ebrill 2018.



Ffigur 7 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o'r oedi cyfartalog o ran paratoi Cynllun Datblygu Lleol, mewn misoedd

Mae Ffigur 7 yn dangos cynnydd blynyddol arall yn yr oedi cyfartalog o ran paratoi Cynllun Datblygu Lleol.

Bellach mae tri awdurdod cynllunio lleol yn unig sydd heb fabwysiadu eu Cynlluniau Datblygu Lleol eto, ac mae pob un ohonynt wedi profi oedi sylweddol.

Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a Gwynedd ar y cyd ei fabwysiadu yn ystod y cyfnod adrodd ac roedd yn destun 16 mis o oedi o ran ei baratoi, sy'n dipyn agosach at y dyddiadau a gynlluniwyd yn y cytundeb cyflenwi na'r Cynlluniau Datblygu Lleol hynny sy'n dal i fod ar waith. Gan fod y Cynllun Datblygu Lleol hwn bellach wedi cael ei fabwysiadu, ac mae'r Cynlluniau Datblygu Lleol sydd heb eu mabwysiadu eto yn destun llawer yn fwy o oedi, mae hyn yn cael yr effaith o gynyddu'r cyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer y dangosydd hwn.

Dangosydd 03 - Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi eu llunio yn dilyn mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol

Oes (12 allan o'r 14 awdurdod cynllunio lleol)


Mae Adroddiadau Monitro Blynyddol yn ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth. Maent yn adrodd ar y cynnydd o ran gweithredu'r polisïau a chyflawni amcanion a gweledigaeth pob Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Adroddiadau Monitro Blynyddol yn nodi a yw strategaeth a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn gweithio yn ôl y bwriad neu beidio. Mae eu cyd-destun a'u dangosyddion yn cael eu cytuno fel rhan o'r broses archwilio gyhoeddus, cyn mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol. Gall ystyried canfyddiadau Adroddiad Monitro Blynyddol, yn arbennig pan fo tuedd o ran methu â chyflawni targedau, ysgogi adolygiad llawn neu rannol o Gynllun Datblygu Lleol.

Mae angen i bob awdurdod lleol ystyried yn ofalus a yw ei bolisïau yn cael eu cyflawni neu beidio. Pan fo diffygion, dylid cymryd camau adfer er mwyn cywiro unrhyw ddiffygion yn brydlon. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod y data tystiolaeth yn dyddio. Mae gan bob awdurdod cynllunio lleol ddyletswydd statudol i adolygu ei Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig bedair blynedd ar ôl iddo gael ei fabwysiadu.

Mae dyletswydd ar bob awdurdod cynllunio lleol gyda Chynllun Datblygu Lleol mabwysiedig i gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Weinidogion Cymru, gan adrodd ar weithredu targedau'r Cynllun Datblygu Lleol. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gwnaeth dau awdurdod cynllunio lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf) fethu â chyflwyno eu Hadroddiadau Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau o 31 Ionawr 2017. Yn y ddau achos, cafodd drafftiau cynnar eu rhannu â Llywodraeth Cymru cyn y dyddiad cyflwyno, ond ni chraffwyd arnynt na'u cymeradwyo gan aelodau o'r cynghorau priodol mewn pryd ar gyfer eu cyflwyno.

Er y gellid priodoli hyn i amserlenni pwyllgorau, mae'r adroddiadau pwysig hyn yn angenrheidiol i bob awdurdod cynllunio lleol ddeall a yw'r cynllun datblygu yn cyflawni ei amcanion, a dylid rhoi blaenoriaeth i'r gwaith hwn fel y mae'n ei deilyngu. Dylid nodi y gofynnir i Adroddiad Perfformiad Blynyddol pob awdurdod cynllunio lleol gael ei gyflwyno ochr yn ochr â'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer yr un cyfnod adrodd, a chafodd pob

Adroddiad Monitro Blynyddol ei gyflwyno cyn y dyddiad cyflwyno gofynnol ar gyfer Hydref 2018, a bydd Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cymru Gyfan y flwyddyn nesaf yn adlewyrchu hyn yn gadarnhaol.




Mae'r system gynllunio'n gyfrifol am nodi safleoedd addas ar gyfer tai newydd drwy'r broses Cynllun Datblygu Lleol. Disgwylir i bob awdurdod cynllunio lleol ddangos argaeledd tir digonol a chyflawnadwy o fewn yr awdurdod er mwyn adeiladu tai ar gyfer y pum mlynedd nesaf, yn seiliedig ar y gofynion tai a nodwyd yn ei Gynllun Datblygu Lleol. Mae'r ffordd y mae'r gofyniad polisi hwn yn cael ei fonitro'n cael ei adnabod fel y gyd-astudiaeth argaeledd tir ar gyfer tai (JHLAS). Bob blwyddyn mae'r awdurdodau cynllunio lleol yn cynnal yr astudiaethau hyn ac yn cyhoeddi eu canfyddiadau.

Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan chwe awdurdod gyflenwad tir ar gyfer tai am bum mlynedd neu fwy (gweler Ffigur 8 isod). Gallai prinder tir cyflawnadwy ar gyfer tai, diffyg cyflenwi gan y diwydiant adeiladu tai, neu ddiffyg amrediad a dewis o safleoedd, olygu nad yw cynllun yr awdurdod yn gallu dangos cyflenwad am bum mlynedd.

Pan nad yw awdurdod cynllunio lleol yn gallu dangos cyflenwad tir ar gyfer tai am bum mlynedd, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried y rhesymau dros y diffyg a ph'un a ddylid nodi mesurau i fynd i'r afael â'r diffyg fel rhan o'u Hadroddiadau Monitro Blynyddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.


Mae'r cyd-destun polisi cenedlaethol yn cael ei amlinellu yn [Polisi Cynllunio Cymru](#) a [Nodyn Cyngor Technegol 1: Cyd-astudiaethau argaeledd tir ar gyfer tai \(TAN1\)](#).

Er mwyn lliniaru peth o'r pwysau dybryd ar awdurdodau cynllunio lleol wrth ddelio â cheisiadau am dai ar safleoedd nad ydynt wedi eu neilltuo ar gyfer datblygiad yn y Cynlluniau Datblygu Lleol, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ymgynghori ym mis Mai 2018 ar ddatgymhwysio paragraff 6.2 o TAN1 i gael gwared ar y cyfeiriad at atodi pwysau "sylweddol" i'r diffyg cyflenwad tir ar gyfer tai am bum mlynedd fel ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer tai. Yn dilyn yr ymgynghoriad, penderfynodd Ysgrifennydd y Cabinet ddatgymhwysio paragraff 6.2 o TAN1 tra bo adolygiad o gyflenwi tai drwy'r system gynllunio yn cael ei gyflawni.



Ffigur 8 – Awdurdodau cynllunio lleol gyda chyflenwad tir ar gyfer tai am bum mlynedd neu fwy (ar 31 Mawrth 2018)

Mae Ffigur 8 uchod yn dangos y cyflenwad tir ar gyfer tai ymhob awdurdod cynllunio lleol ar 31 Mawrth 2018. Nid yw awdurdodau cynllunio lleol heb Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig (neu Gynllun Datblygu Unedol mabwysiedig sy'n dal i fod o fewn cyfnod ei gynllun ar ddyddiad sylfaenol y JHLAS) yn gallu cynnal JHLAS ac felly ystyrir bod ganddynt gyflenwad tir ar gyfer tai am sero mlynedd. O ganlyniad, mae pedwar awdurdod cynllunio lleol yn dangos cyflenwad tir ar gyfer tai am sero mlynedd.



Ffigur 9 – Nifer yr awdurdodau cynllunio lleol gyda chyflenwad tir ar gyfer tai am bum mlynedd

Mae Ffigur 9 uchod yn dangos bod nifer yr awdurdodau cynllunio lleol gyda chyflenwad tir ar gyfer tai am bum mlynedd wedi parhau'r un peth ag yr oedd yn 2016/17 ac mae'r 19 awdurdod heb gyflenwad tir ar gyfer tai am bum mlynedd yn cynnwys 16 o'r un awdurdodau.

Mae cyflenwad tir, fel yr adroddwyd yn y JHLASau, wedi dirywio ar gyfer llawer o'r awdurdodau cynllunio lleol, gan gynnwys rhai gyda Chynlluniau Datblygu Lleol a fabwysiadwyd yn ddiweddar. Gwnaeth yr ymchwil a gyflawnwyd yn 2016/17 (*Astudiaeth Hyfywedd Hydredol o'r Broses Gynllunio*) ddangos bod hyfywedd yn rheswm allweddol dros oediadau o ran safleoedd yn cael eu cyflwyno ar gyfer datblygu. Mae rhesymau eraill dros oediadau yn cynnwys dyrannu safleoedd ar gyfer tai nad ydynt yn gyflawnadwy yn eu hanfod, neu ond yn debygol o gael eu cyflwyno yn ystod camau diweddarach o gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol, neu gyfraddau cyflenwi sy'n rhy optimistaidd. Mae hyn wedi arwain at gyfraddau cyflenwi sy'n is na'r disgwyl ar safleoedd a neilltuwyd mewn Cynlluniau Datblygu Lleol ac mae'n amlwg ei fod yn cael effaith niweidiol ar y cyflenwad tir ar gyfer tai.


Mewn ymateb, mae Polisi Cynllunio Cymru wedi cael ei ddiwygio i'w wneud yn ofynnol i gynnal asesiadau mwy trylwyr o safleoedd cyn eu neilltuo mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Dylai hyn negyddu'r angen am gynnal asesiadau hyfywedd manwl yn y cam cais cynllunio pan fo'r cynnig datblygu yn cydymffurfio â gofynion polisi'r Cynllun Datblygu Lleol.

ADRAN 2 – EFFEITHLONRWYDD

Dangosydd 05 - Y ganran o geisiadau "mawr" a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol **67.4%**

Mae gan awdurdodau cynllunio lleol gyfnod amser statudol pan ddylent benderfynu ar geisiadau cynllunio. Os nad yw cais yn cael ei benderfynu o fewn y cyfnod amser statudol hwn, mae gan yr ymgeisydd yr hawl i apelio i'r Arolygiaeth Gynllunio ar sail diffyg penderfyniad. Y cyfnod amser yw 16 wythnos ar gyfer cais sy'n destun asesiad o'r effaith amgylcheddol, yn sgil cymhlethdod technegol y wybodaeth ategol. Ar gyfer yr holl geisiadau eraill, wyth wythnos yw'r cyfnod.


Gall awdurdodau cynllunio lleol wneud cais am estyniad gwirfoddol i'r cyfnod amser hwn gyda'r ymgeisydd, ac mae'r dangosydd hwn yn cynnwys achosion pan fo estyniad wedi'i gytuno, ac y bodlonir yr amserlen ddiwygiedig, fel "ar amser".



Ffigur 10 – Cymharu perfformiad awdurdodau cynllunio lleol o ran penderfynu ar geisiadau cynllunio mawr


Mae Ffigur 10 yn dangos perfformiad unigol pob awdurdod cynllunio lleol yn erbyn y dangosydd hwn. Mae perfformiad unigol awdurdodau cynllunio lleol wedi gwella'n sylweddol eto o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda 17 o'r 25 awdurdod cynllunio lleol yn perfformio o fewn y band "da". Mae chwech allan o'r 25 awdurdod cynllunio lleol o fewn y band "gwella", sy'n dri yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Yn fwyaf nodedig ymhlith y rhain y mae Cyngor Sir y Fflint, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, sydd i gyd wedi symud o fod yn y band "gwella" y llynedd i'r band "da" eleni. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi gwella o benderfynu ar 33% o geisiadau mawr "ar amser" i 100%, er bod hyn yn seiliedig ar berfformiad ar gyfer un cais yn unig. O'i gymharu, gwnaeth Cyngor Sir y Fflint benderfynu ar 23 o'r 24 cais mawr ar amser, a gwnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam benderfynu ar 22 allan o 24 cais

mawr ar amser. Gwnaeth Cyngor Sir Powys gyflawni safon "ar amser" o 78.4%, gan benderfynu ar 58 allan o 74 cais ar amser. Gwnaeth Cyngor Caerdydd benderfynu ar 74.1% (53 allan o 71) o geisiadau mawr ar amser.




Ffigur 11 – Cymhariaeth o'r nifer o geisiadau mawr a benderfynwyd ar amser ac o fewn yr estyniadau cytunedig

Mae gan Gyngor Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam feichiau gwaith cais mawr uwch na llawer o'r lleill ac maent yn dangos, er bod yr awdurdodau llai yn gallu cyflawni'r cyfraddau perfformiad uchaf gyda cheisiadau mawr cymharol brin, y gall yr awdurdodau mwy gyda beichiau gwaith mwy barhau i gyflenwi penderfyniadau ar geisiadau mawr mewn modd amserol.




Ffigur 12 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o geisiadau cynllunio mawr a benderfynwyd "ar amser"

Mae Ffigur 12 yn dangos perfformiad Cymru gyfan yn erbyn y dangosydd hwn, gyda chod lliw sy'n gysylltiedig â pherfformiad, sef coch ar gyfer "gwella", oren ar gyfer "gweddol" a gwyrdd ar gyfer "da" yn y drefn honno. Mae'r perfformiad yn parhau i wella o flwyddyn i flwyddyn. Mae hon yn duedd galonogol ac mae'n dangos yr ymdrechion a wnaed gan awdurdodau cynllunio lleol i gyflawni safonau gwasanaeth derbyniol ar gyfer ceisiadau mawr, sydd fel arfer yn denu ffioedd cynllunio sylweddol.



Ffigur 13 – Yr holl geisiadau mawr y penderfynwyd arnynt, yn ôl cyfnod amser ar gyfer penderfynu


Mae Ffigur 13 uchod yn dangos bod y nifer o geisiadau mawr wedi gostwng o 30% mewn tair blynedd, o 756 o geisiadau yn 2015/16 i 531 yn 2017/18. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r ganran o geisiadau a benderfynwyd "ar amser" wedi cynyddu'n sylweddol, ond gwnaeth y nifer a benderfynwyd "ar amser" ostwng dros y 12 mis diwethaf, o 405 i 358.



Ffigur 14 – Cyfran o geisiadau mawr a benderfynwyd "ar amser" sy'n destun estyniad amser cytunedig

Mae Ffigur 14 uchod yn dangos nifer y ceisiadau "ar amser" sy'n cael eu penderfynu o fewn y cyfnodau amser statudol o 16 wythnos ar gyfer ceisiadau sy'n destun asesiad o'r effaith amgylcheddol, neu wyth wythnos ar gyfer ceisiadau eraill, wedi'u cymharu â'r ceisiadau hynny a benderfynwyd y tu allan i'r amseroedd hyn ond o fewn estyniad amser cytunedig.

Mae'r gyfran o geisiadau sy'n cael eu penderfynu yn unol ag estyniadau amser cytunedig yn parhau i dyfu fel cyfran gyffredinol o geisiadau "ar amser". Mae'n parhau'n agored i ymgeiswyr wrthod cais am estyniad amser i benderfynu ar y ceisiadau hyn. Nid yw'r ceisiadau hyn yn cael eu gwrthod, ac nid oes unrhyw gynnydd cyfatebol o ran y nifer o apeliadau ar sail diffyg penderfyniad. Mae ymgeiswyr yn ymddangos fel pe baent yn fodlon cytuno ar yr estyniadau hyn, sy'n darparu dilyniant o ran cyswllt, yn enwedig pan fo cynlluniau mawr yn destun gwaith ymgysylltu lleol a gwaith cyn ymgeisio sylweddol.




Ffigur 15 – Cymharu'r amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau cynllunio mawr

Mae Ffigur 15 uchod yn cymharu perfformiad ymhlith awdurdodau cynllunio lleol yn erbyn y dangosydd hwn. Mae'r siart yn dangos amrywiaeth sylweddol o ran yr amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau o'r fath. Fodd bynnag, wrth ystyried perfformiad awdurdodau cynllunio lleol yn erbyn y dangosydd hwn, dylid deall bod ceisiadau mawr yn amrywio'n sylweddol o ran maint a chymhlethdod.

Mae'r meini prawf ar gyfer datblygiad mawr yn cael eu nodi'n fanwl yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012. Er enghraifft, mae datblygiad o ddeg annedd neu fwy yn cyfrif fel datblygiad mawr, ac mae gwahaniaeth sylweddol rhwng dyfnder a chymhlethdod y materion sy'n cael eu hystyried gan yr awdurdod cynllunio lleol wrth benderfynu, er enghraifft, ar gais am ddeg annedd a chais am 1,000 o anheddau. Mae'r un peth yn wir yn arbennig ar gyfer rhai datblygiadau diwydiannol, sy'n gallu codi materion amgylcheddol ac amwynder sylweddol. Dylid cadw mewn cof yr amrywiaeth hon o ran cymhlethdod ceisiadau o'r fath wrth ystyried perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn.

Mae awdurdodau sy'n cyflawni amseroedd aros byrrach ar gyfer penderfynu ar geisiadau mawr yn adrodd bod dull gweithredu tîm datblygu rhagweithiol yn effeithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau o fewn amserlenni byrrach. Gall y broses ymgynghori cyn ymgeisio hefyd fod yn fuddiol, er ei bod yn fwy dibynnol ar gamau gweithredu'r ymgeisydd yn gwneud newidiadau i gynlluniau yn sgil cyngor, yn hytrach na'r gwasanaeth mae'r awdurdod yn ei ddarparu.




Ffigur 16 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o'r amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau cynllunio mawr, mewn diwrnodau


Mae perfformiad Cymru gyfan yn erbyn y dangosydd hwn wedi gwella fymryn dros y 12 mis diwethaf. Mae deg awdurdod cynllunio lleol y mae eu cyfartaledd yn fwy na 200 diwrnod o'i gymharu â 14 awdurdod cynllunio lleol y llynedd. Mae'r cyfartaledd yn awgrymu bod penderfynu ar geisiadau mawr o fewn wyth wythnos yn anghyraeddadwy mewn llawer o achosion. Gallai ffactorau gynnwys cymhlethdod y dadansoddiad effaith ar gyfer ceisiadau mwy neu'r drafodaeth barhaus â datblygwyr ynglŷn ag agweddau o ddyluniad y cynllun. Mae parodrwydd parhaus ymgeiswyr i gytuno ar estyniadau amser yn ymddangos fel pe bai'n cefnogi'r olaf. Nid yw cyflwyno gweithdrefnau cyn ymgeisio yn ymddangos fel pe bai wedi arwain at newid sylweddol mewn amser prosesu cyfartalog.

Dangosydd 07 - Canran yr holl geisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol

88.5%




Ffigur 17 – Cymharu perfformiad awdurdodau cynllunio lleol wrth benderfynu ar yr holl geisiadau cynllunio



Ffigur 18 – Cymharu canran o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer yr holl geisiadau cynllunio a gafodd eu penderfynu "ar amser"

Mae Ffigur 18 yn dangos perfformiad o flwyddyn i flwyddyn ar sail Cymru gyfan, gyda chod lliw sy'n gysylltiedig â pherfformiad, sef coch ar gyfer "gwella", oren ar gyfer "gweddol" a gwyrdd ar gyfer "da" yn y drefn honno. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi ymddangos yn gyson ar frig y tablau perfformiad chwarterol ar gyfer amseroldeb wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ers i'r Fframwaith Perfformiad gael ei gyflwyno yn 2014.


Mae perfformiad awdurdodau cynllunio lleol unigol yn erbyn y safon hon yn parhau i wella. Gwnaeth pob un oni bai am dri awdurdod cynllunio lleol gyrraedd y safon perfformiad "da" yn erbyn y dangosydd hwn, sy'n welliant o chwech y llynedd, ac nid oes unrhyw awdurdod o fewn y band "gwella" yn ystod y cyfnod adrodd hwn.



Ffigur 19 – Y defnydd o estyniadau cytunedig wrth benderfynu ar yr holl geisiadau cynllunio

Mae Ffigur 19 yn dangos bod nifer a chyfran yr holl geisiadau sy'n cael eu penderfynu yn unol ag estyniad amser cytunedig wedi cynyddu am yr ail flwyddyn. Dros y 12 mis diwethaf, cafodd llai o geisiadau cyffredinol eu penderfynu ar amser, ac, o'r rhain, mae'r gyfran a benderfynwyd ar ôl y cyfnod disgwylidig o wyth neu 16 wythnos, ac o fewn estyniad amser cytunedig, wedi tyfu, o 13.3% i 19.9%. Mae hyn yn dangos bod awdurdodau cynllunio lleol yn defnyddio estyniadau amser cytunedig yn gynyddol er mwyn rheoli disgwyliadau cwsmeriaid.

Mae nifer o awdurdodau cynllunio lleol yn cyflwyno cynlluniau "carlam" y telir amdanynt ar gyfer mân geisiadau neu geisiadau deiliaid tai, sy'n rhoi gwarant o benderfyniad o fewn cyfnod amser penodol neu mae'r ffi ychwanegol yn cael ei had-dalu. Mae hyn yn darparu lefel uwch o sicrwydd ar gyfer ymgeiswyr tra bo hefyd yn darparu lliw incwm amgen i awdurdodau cynllunio lleol i fuddsoddi adnoddau ychwanegol wrth benderfynu ar geisiadau. Mae awdurdodau cynllunio lleol sy'n dilyn y dull gweithredu hwn yn cynnwys Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bro Morgannwg.




Ffigur 20 – Cymhariaeth o'r amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau cynllunio

Mae Ffigur 20 uchod yn dangos cymhariaeth o'r cyflymderau penderfynu cyfartalog ar gyfer ceisiadau o bob math, gyda chod lliw sy'n gysylltiedig â pherfformiad, sef coch ar gyfer "gwella", oren ar gyfer "gweddol" a gwyrdd ar gyfer "da" yn y drefn honno. Ar y cyfan, mae perfformiad awdurdodau cynllunio lleol yn erbyn y dangosydd hwn o fewn disgwyliadau rhesymol, gan eithrio dau allanolyn eithafol. Cyngor Sir Powys yw'r awdurdod cynllunio lleol gyda'r amser cyfartalog hiraf o ran penderfynu ar geisiadau, sef 181.3 o ddiwrnodau.

Mae'r cyngor yn cynghori bod hyn o ganlyniad i nifer o geisiadau yn cael eu cyflwyno ar gyfer datblygiadau preswyl y tu allan i dir a neilltuwyd o ganlyniad i'r cyngor yn methu â chynnal cyflenwad tir ar gyfer tai am bum mlynedd. Mae'r cyngor yn adrodd bod y ceisiadau hyn wedi cael eu cyfeirio at y pwyllgor am benderfyniad, gan gynyddu'r amserlenni ar gyfer penderfynu ac effeithio ar allu swyddogion i brosesu ceisiadau eraill.

Gwnaeth Cyngor Sir Ddinbych adrodd am amser cyfartalog i benderfynu ar geisiadau yn ystod dau chwarter cyntaf 2017/18 o 64 a 67 diwrnod, yna gwnaeth adrodd am gyfartaledd o 378 diwrnod yn y trydydd chwarter, ac yna methodd â darparu ffigurau ar gyfer y pedwerydd chwarter. Nid yw gwybodaeth perfformiad grybwylliedig y cyngor yn ddigon dibynadwy i adlewyrchu ei berfformiad yn gywir, ac yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol ei hun mae'r cyngor yn adrodd am gyfartaledd o 69 diwrnod ar gyfer y flwyddyn.




Ffigur 21 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o'r amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau cynllunio, mewn diwrnodau

Mae Ffigur 21 yn dangos perfformiad o flwyddyn i flwyddyn ar sail Cymru gyfan, gyda chod lliw sy'n gysylltiedig â pherfformiad, sef coch ar gyfer "gwella", oren ar gyfer "gweddol" a gwyrdd ar gyfer "da" yn y drefn honno. Roedd cyfartaledd Cymru o ran yr amser a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau yn 80.7 diwrnod, sef cynnydd bach o'r flwyddyn adrodd flaenorol, er bod y duedd berfformiad yn gyffredinol sefydlog dros y pedair blynedd diwethaf. Pe bai'r ddau allanolyn a nodwyd yn cael eu gwaredu at ddibenion cyfrifo cyfartaledd Cymru, byddai'r ffigur yn 73.4 diwrnod.

Yn debyg i Ddangosydd 08, mae'r cynnydd bach hwn o ran amser a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau yn cael ei briodoli i ddefnydd mwy cyffredin o estyniadau cytunedig i geisiadau cynllunio.

Dangosydd 09 - Y ganran o geisiadau caniatâd adeilad rhestredig a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol

65.4%



Ffigur 22 – Cymharu perfformiad awdurdodau cynllunio lleol er mwyn pennu ceisiadau caniatâd adeilad rhestredig


(Mae gan yr awdurdodau cynllunio lleol hynny sydd wedi eu lliwio'n **LAS** awdurdod dirprwyedig i bennu ceisiadau caniatâd adeilad rhestredig)

Cyflwynwyd dangosydd newydd ar brydlondeb pennu ceisiadau caniatâd adeilad rhestredig ym mis Mehefin 2017, ac adroddwyd ar hyn am y tro cyntaf yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn.

Ystyrir i geisiadau caniatâd adeilad rhestredig gael eu pennu ar un o ddau bwynt:


- Gall yr awdurdodau cynllunio lleol hynny sydd ag awdurdod dirprwyedig gan Cadw (sydd wedi eu lliwio'n las yn Ffigur 22 uchod) bennu ceisiadau caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer adeiladau rhestredig Gradd II eu hunain, felly mae'r dyddiad pennu'n syml ar gyfer yr awdurdodau cynllunio lleol hyn.
- Rhaid i'r awdurdodau cynllunio lleol hynny heb awdurdod dirprwyedig gan Cadw (a nodir mewn gwyn yn Ffigur 22 uchod) gyfeirio ceisiadau at Cadw, ac, ar y pwynt hwn, bydd Cadw yn penderfynu a ddylid argymhell bod y cais hwn yn cael ei alw i mewn gan Weinidogion Cymru. Ar gyfer yr awdurdodau cynllunio lleol hyn, ystyrir mai'r dyddiad "penderfynu" yw'r dyddiad pan fo'r cais yn cael ei gyfeirio at Cadw, oherwydd mae oediadau yng ngwaith prosesu ceisiadau Cadw y tu hwnt i ddylanwad yr awdurdod cynllunio lleol.

Er nad oes unrhyw drothwyon perfformiad wedi eu dangos yn Ffigur 22, cytunwyd ar y targedau perfformiad gyda Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru ym mis Gorffennaf 2018.



Ffigur 23 – Cymharu perfformiad awdurdodau cynllunio lleol wrth benderfynu ar geisiadau caniatâd adeilad rhestredig

Dengys Ffigur 23 nad oes unrhyw gydbertynas uniongyrchol rhwng prydlondeb pennu ceisiadau caniatâd adeilad rhestredig ac awdurdod dirprwyedig gan Cadw i bennu ceisiadau caniatâd adeilad rhestredig. Er enghraifft, mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog awdurdod dirprwyedig a llwyth gwaith sylweddol o ran ceisiadau caniatâd adeilad rhestredig, a llwyddodd i bennu 100% o'i geisiadau caniatâd adeilad rhestredig ar amser. I'r gwrthwyneb, dim ond 42.8% o geisiadau caniatâd adeilad rhestredig gafodd eu pennu ar amser gan Gyngor Sir Caerfyrddin, sydd â llwyth gwaith tebyg o ran ceisiadau caniatâd adeilad rhestredig ac awdurdod dirprwyedig.



Ffigur 24 – Cymhariaeth o un flwyddyn i'r llall o ganran yr holl geisiadau caniatâd adeilad rhestredig a bennwyd "ar amser"


Mae'r perfformiad o ran ceisiadau caniatâd adeilad rhestredig wedi gwella'n gyffredinol ledled Cymru. Mae hyn yn werth ei nodi pan fo mynediad at arbenigedd arbenigol o fewn llywodraeth leol yn lleihau yn gyffredinol. Mae awdurdodau cynllunio lleol yn defnyddio dulliau arloesol i sicrhau y gallant gadw mynediad at arbenigwyr a defnyddio eu hamser yn y ffordd fwyaf effeithiol.

ADRAN 3 – ANSAWDD

Dangosydd 10 – Y ganran o benderfyniadau gan aelodau a wnaed yn erbyn cyngor swyddog
8.6%

Dylai awdurdodau cynllunio lleol benderfynu ar geisiadau yn unol â'r cynllun datblygu perthnasol, oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn eu harwain i benderfynu fel arall. O ganlyniad, dylai fod yn ddigwyddiad cymharol anaml i geisiadau gael eu penderfynu yn groes i'r polisiau hynny. Pan fo ceisiadau yn cael eu penderfynu yn groes i bolisiau cynllunio, dylai rhesymau cynllunio clir gael eu nodi yn yr hysbysiad penderfynu, gan gyfiawnhau peidio â dilyn y cynllun. Pan fo adroddiad swyddog yn seiliedig ar bolisiau clir yn y Cynllun Datblygu Lleol, dylai penderfyniadau sy'n groes i'r cyngor hwnnw fod yn brin.

Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol weithredu cynllun dirprwyo effeithiol fel y gall pwyllgorau cynllunio ganolbwyntio ar y ceisiadau mwy sensitif, sy'n strategol bwysig. Gall ceisiadau o'r fath fod yn dechnegol gymhleth ac yn ddadleuol, gan gynnwys nifer o faterion a phwysau sy'n gwrthdaro. Caiff ei dderbyn, wrth i gynlluniau dirprwyo gael eu rhoi ar waith, fod nifer y penderfyniadau allweddol sy'n groes i gyngor swyddog yn debygol o gynyddu. Y pwynt allweddol yw bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad o'r fath fod yn seiliedig ar resymau cynllunio cadarn.



Ffigur 25 – Canran o geisiadau cynllunio sy'n cael eu penderfynu'n groes i gyngor swyddog


Mae Ffigur 25 uchod yn dangos y ganran o geisiadau a gafodd eu penderfynu yn groes i argymhelliad swyddog gan bwyllgorau cynllunio mewn awdurdodau cynllunio lleol, fel canran o'r holl geisiadau cynllunio a gafodd eu penderfynu gan y pwyllgor cynllunio priodol, gyda chod lliw sy'n gysylltiedig â pherfformiad, sef coch ar gyfer "gwella", oren ar gyfer "gweddol" a gwyrdd ar gyfer "da" yn y drefn honno.

Yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol, mae un awdurdod cynllunio lleol yn gwyro cyfartaledd Cymru gyfan yn sylweddol ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn. Roedd Cyngor Sir Ceredigion yn cyfrif am 45 o 175, neu dros chwarter, o'r holl benderfyniadau a gafodd eu gwrthdroi yn ystod y cyfnod adrodd. Byddai cael gwared ar yr allanolyn hwn yn gostwng cyfartaledd Cymru i 6.4%.

Gwnaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri benderfynu ar 17.6% o'r holl geisiadau yn groes i gyngor swyddog ac mae awdurdod y parc wedi ystyried ei berfformiad yn y maes hwn yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Mae awdurdod y parc wedi adolygu'r penderfyniadau hyn yn y pwyllgor, ac mae'n adrodd bod yr holl benderfyniadau hyn i gymeradwyo yn groes i gyngor swyddog, ym marn yr awdurdod, yn gyfartal gytbwys o ran polisi'r Cynllun Datblygu Lleol. Gall y dull myfyriol hwn ar gyfer gwrthdroadau gan aelodau fod yn ddefnyddiol er mwyn nodi pam fod aelodau wedi penderfynu yn groes i gyngor swyddog, ac mae nifer o awdurdodau cynllunio lleol yn adrodd am arferion tebyg wrth ystyried gwrthdroadau, yn arbennig pan fo ceisiadau sy'n cael eu gwrthod yn groes i gyngor swyddog yn cael eu cadarnhau mewn apêl.


Mae rhai awdurdodau cynllunio lleol yn parhau i fod â chanrannau isel o benderfyniadau sy'n groes i gyngor swyddog, gyda chyfran gymharol uchel o geisiadau'n cael eu penderfynu gan bwyllgor. Er enghraifft, gwnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam benderfynu ar draean o'r holl geisiadau mewn pwyllgor cynllunio yn y cyfnod adrodd, gyda dim ond 4.3% o benderfyniadau'r pwyllgor yn cael eu gwneud yn groes i gyngor. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn casglu yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol fod angen newidiadau i'w drefniadau dirprwyo i alluogi gwneud penderfyniadau yn gyflymach.

Gall y nifer fach o geisiadau a benderfynwyd gan bwyllgor wneud i'r perfformiad fod yn anwadal yn y dangosydd hwn. Er enghraifft, ni wnaeth Bannau Brycheiniog benderfynu ar unrhyw geisiadau a oedd yn groes i gyngor swyddog, ond byddai un penderfyniad yn unig yn groes i gyngor wedi newid perfformiad awdurdod y parc o 0% i 7.7%.




Ffigur 26 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o'r ganran o benderfyniadau gan aelodau a wnaed yn groes i gyngor swyddog

Mae Ffigur 26 yn dangos perfformiad Cymru gyfan o flwyddyn i flwyddyn yn erbyn y dangosydd hwn, gyda chod lliw sy'n gysylltiedig â pherfformiad, sef coch ar gyfer "gwella", oren ar gyfer "gweddol" a gwyrdd ar gyfer "da" yn y drefn honno. Fel arfer, bydd pwyllgorau cynllunio yn ystyried ceisiadau mwy, sy'n fwy cymhleth neu sensitif, gyda cheisiadau llai yn cael eu penderfynu o dan bwerau dirprwyedig. Mae hyn yn cyfeirio amser ac ymdrech y pwyllgor cynllunio at achosion sydd angen y mwyaf o sylw. Os bydd llai o geisiadau yn cael eu penderfynu gan bwyllgorau, ond mae'r rhai hynny yn fwy dadleuol, mae'n dilyn y bydd y ceisiadau hynny yn fwy tebygol o gael eu penderfynu yn groes i argymhelliad swyddog.



Ffigur 27 – Nifer y ceisiadau a gafodd eu gwneud mewn pwyllgor cynllunio

Mae Ffigur 27 yn dangos bod nifer y ceisiadau sy'n cael eu gwneud gan bwyllgorau cynllunio wedi parhau'n gyson ar gyfer y tair blynedd diwethaf. Mae un neu ddau awdurdod cynllunio lleol sy'n penderfynu ar gyfran uchel o geisiadau mewn pwyllgor, er bod yr awdurdodau hyn (megis Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam) eisoes wedi nodi hwn fel maes ar gyfer gwella ar lefel leol.




Ffigur 28 – Nifer y ceisiadau cynllunio sy'n cael eu penderfynu yn groes i gyngor swyddog o'u cymharu â chyfanswm y penderfyniadau gan bwyllgor

Mae Ffigur 28 uchod yn cymharu nifer y penderfyniadau gwrthdroi â chyfanswm cyffredinol y penderfyniadau gan bwyllgor. Mae'r awdurdod cynllunio lleol â'r nifer uchaf o wrthdroadau hefyd yn penderfynu ar nifer cymharol isel o benderfyniadau mewn pwyllgor, ac nid yw'r awdurdodau cynllunio lleol hynny gyda chyfran uwch o benderfyniadau a wnaed gan bwyllgor, megis Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, yn dangos cyfran yr un mor uchel o wrthdroadau.

Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, ni ellir gwneud cysylltiad uniongyrchol rhwng nifer y penderfyniadau a wnaed gan bwyllgor (neu a ddirprwywyd i bwyllgor) a thebygolrwydd y penderfyniadau hynny'n cael eu gwrthdroi. Yn hytrach, yn syml mae rhai awdurdodau cynllunio lleol yn fwy tueddol o wrthod cyngor eu swyddogion. Mae tueddfryd pwyllgorau i benderfynu yn groes i gyngor swyddog yn dangos symudiad i ffwrdd o'r polisiau a amlinellir mewn cynllun datblygu mabwysiedig gan yr aelodau priodol, ac mae'n tansellio uniondeb system sy'n cael ei harwain gan gynllun.


Fodd bynnag, wrth i gynlluniau dirprwyedig newid, bydd llai o geisiadau yn mynd at bwyllgorau. Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd angen i'r targedau perfformiad ar gyfer y dangosydd hwn newid.



Ffigur 29 – Y ganran o apeliadau cynllunio sy'n cael eu gwrthod


Mae'r siart yn Ffigur 29 yn dangos perfformiad cymharol pob awdurdod cynllunio lleol mewn apêl, gyda chod lliw sy'n gysylltiedig â pherfformiad, sef coch ar gyfer “gwella”, oren ar gyfer “gweddol” a gwyrdd ar gyfer “da” yn y drefn honno. Mae'r cyfartaledd ledled Cymru ar gyfer y cyfnod adrodd ychydig islaw'r band perfformiad “da”. Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, a'r dangosydd blaenorol, caiff ei dderbyn y gallai sampl fach ogwyddo'r perfformiad a gaiff ei adrodd gan rai awdurdodau cynllunio lleol llai yn sylweddol.

Dim ond dau o'r awdurdodau cynllunio lleol hynny a gafodd safon “gwella” o ran perfformiad a oedd yn gallu dangos cyflenwad o dir ar gyfer tai am bum mlynedd. Mae hyn yn dangos bregusrwydd gwrthod caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau preswyl mewn apêl yn sgil absenoldeb cyflenwad o dir ar gyfer tai am bum mlynedd o leiaf.



Ffigur 30 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o'r ganran o apeliadau cynllunio a gafodd eu gwrthod

Mae Ffigur 30 yn dangos perfformiad Cymru gyfan ar gyfer y dangosydd hwn, gyda chod lliw sy'n gysylltiedig â pherfformiad, sef coch ar gyfer "gwella", oren ar gyfer "gweddol" a gwyrdd ar gyfer "da" yn y drefn honno. Mae'n dangos o ran y cyfanswm y cafodd 315 o'r 503 o apeliadau (62.6%) eu gwrthod yn 2017/18, sy'n ychydig o welliant ar y perfformiad o'r flwyddyn flaenorol, gan fod canran ychydig yn uwch o'r apeliadau wedi cael eu gwrthod, er bod y duedd o flwyddyn i flwyddyn yn sefydlog.



Ffigur 31 – Cymhariaeth o wrthdroadau lle cafodd ceisiadau eu gwrthod ac apeliadau a gafodd eu gwrthod


Yn debyg i Adroddiadau Perfformiad Blynyddol blaenorol, rydym wedi cymharu nifer y penderfyniadau lle cafodd caniatâd ei wrthod yn groes i gyngor swyddog â'r gyfradd lwyddo gyffredinol mewn apêl. Er bod rhai awdurdodau cynllunio lleol sy'n groes i'r duedd (megis Cyngor Sir Powys), yn nodweddiadol, nid yw awdurdodau cynllunio lleol sy'n gwrthod caniatâd yn groes i gyngor swyddogion yn gwneud yn dda o ran perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn.

Mae hawl gan aelodau i benderfynu ar geisiadau yn groes i gyngor eu swyddogion, ond wrth wneud hynny dylent amlinellu'r rhesymau cynllunio clir dros wneud hyn, gan y byddai methu â gwneud hynny yn cynyddu bregusrwydd penderfyniadau o'r fath mewn apêl.

Mae nifer o awdurdodau cynllunio lleol wedi adrodd eu bod yn adolygu penderfyniadau cynllunio, er mwyn helpu aelodau i ddeall canlyniad penderfyniadau gwrthdroi ac atal eu hawdurdod rhag cael penderfyniadau wedi eu gwrthdroi wrth apelio mewn achosion yn y dyfodol.


Yn ystod apêl, mae'r apelydd a'r awdurdod perthnasol yn cael y cyfle i geisio adfer y costau ar gyfer y broses apelio os ydynt yn credu bod y parti arall wedi ymddwyn yn afresymol. Mae'r costau'n cwmpasu'r gwaith a'r ymdrech sy'n ofynnol ar gyfer ystyried yr apêl – gall hyn gynnwys yr amser a'r costau sy'n ofynnol er mwyn i swyddogion neu asiantiaid roi tystiolaeth.

Mae dyfarnu costau yn erbyn awdurdod cynllunio lleol yn ddyfarniad gan yr arolygydd cynllunio nad yw'r awdurdod cynllunio lleol wedi gwrthod caniatâd heb seiliau cynllunio cadarn yn unig, ond ei fod wedi bod yn afresymol drwy wneud hynny.



Ffigur 32 – Nifer yr achosion lle y bo costau wedi cael eu dyfarnu yn erbyn yr awdurdod cynllunio lleol mewn apêl

Mae Ffigur 32 uchod yn dangos bod costau wedi cael eu dyfarnu yn erbyn awdurdodau cynllunio lleol mewn deg achos. Roedd dau awdurdod yn destun dyfarnu costau mewn dau achos, sy'n gwneud i'r awdurdodau hynny syrthio o fewn y band "gwella".



Ffigur 33 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o nifer yr achosion lle y bo costau wedi cael eu dyfarnu yn erbyn yr awdurdod cynllunio lleol mewn apêl


Mae nifer o awdurdodau cynllunio lleol yn adrodd eu bod yn cynnal adolygiadau o apeliadau sy'n ganlyniad i wrthodiadau gan aelodau. Mae Adroddiadau Perfformiad Blynyddol y blynyddoedd blaenorol wedi dangos bod hyn yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau bod seiliau cynllunio y gellir eu hamddiffyn ar gyfer gwrthodiadau gan aelodau yn y dyfodol. Mae'n rhaid i'r aelodau ystyried y tebygolrwydd o gostau'n cael eu dyfarnu yn erbyn yr awdurdod cynllunio lleol, yn arbennig o ystyried y pwysau a grëwyd gan yr hinsawdd ariannol gyfredol, wrth wrthod ceisiadau sy'n groes i gyngor swyddogion.

ADRAN 4 – YMGYSYLLTU

Dangosydd 12 – Ydy'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd annerch y pwyllgor cynllunio?

Ydy (24 allan o 25 awdurdod cynllunio lleol)

Amcan cyffredinol y system gynllunio yw gwneud penderfyniadau ynglŷn â defnydd tir er budd ehangach y cyhoedd. Yn sylfaenol i hyn mae egwyddor bod yn agored ac yn dryloyw ac atebolrwydd y sawl sy'n gwneud y penderfyniad. Mae cymunedau'n teimlo bod penderfyniadau o'r fath yn cynrychioli eu safbwyntiau a'u dyheadau pan fo'r cymunedau hynny yn cymryd rhan yn y penderfyniadau, ac mae rhoi cyfle i aelodau o'r gymuned i annerch aelodau'r pwyllgor yn uniongyrchol pan fônt ar fin penderfynu ar geisiadau cynllunio yn sicrhau bod cymunedau yn deall bod eu safbwyntiau yn cael eu hystyried.




Ffigur 34 – Nifer yr awdurdodau cynllunio lleol sy'n caniatáu i aelodau o'r cyhoedd annerch y pwyllgor cynllunio

Ers 2015, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn parhau i fod yr unig awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru nad yw'n darparu'r cyfle i ganiatáu i aelodau o'r cyhoedd annerch y pwyllgor cynllunio. Mae'r cyngor wedi ystyried p'un a ddylai gyflwyno'r cyfle hwn ac mae'n adrodd yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol diweddaraf fod y weinyddiaeth flaenorol wedi ystyried cyflwyno arfer o'r fath ond nid yw gan weinyddiaeth newydd y cyngor, a etholwyd yn 2017, unrhyw awydd i gyflwyno'r arfer hwn. O ganlyniad, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn debygol o barhau fel yr unig awdurdod cynllunio lleol sy'n methu â darparu hawliau siarad cyhoeddus mewn pwyllgor.

Dangosydd 13 – A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd?

Oes (22 allan o 25 awdurdod cynllunio lleol)



Ffigur 35 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o nifer yr awdurdodau sy'n darparu gwasanaeth "swyddog ar ddyletswydd"

Mae Ffigur 35 yn dangos bod tri awdurdod cynllunio lleol nad ydynt yn darparu gwasanaeth "swyddog ar ddyletswydd" (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Gwynedd). Mae hwn yn un peth â'r ddau gyfnod adrodd blaenorol.


Mae Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru yn cynnal arolwg cwsmeriaid i nodi meysydd poblogaidd o ran gwasanaeth cwsmeriaid a chyfleoedd ar gyfer gwella. Mae "mynediad at swyddog cynllunio" yn cael ei ddyfynnu'n aml fel un o'r agweddau sy'n cael ei hoffi fwyaf o ran y gwasanaeth a gynigir gan awdurdodau cynllunio lleol yn yr arolygon hyn.

Mae'n ddiddorol fod Cyngor Sirol Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr yn dal i sgorio'n ffafriol o ran hyn. Mae'r cyngor yn nodi yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol fod ei wasanaeth cyn gwneud cais y codir tâl amdano wedi hen sefydlu ac yn cael ei ddefnyddio'n helaeth, ac mae hynny'n cyfrif am ei adborth da oddi wrth ddefnyddwyr. Mae'n gadarnhaol gweld bod gwasanaeth cyn gwneud cais y cyngor yn cael ei ddefnyddio'n helaeth, a hefyd fod peth o gost y gwasanaeth hwn yn cael ei adfer gan fuddiolwr y cyngor cyn gwneud cais a ddarperir.

Mae'r gallu i gael mynediad at geisiadau cynllunio a dogfennau atodol ar y rhyngwrwyd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau, yn arbennig ymhlith y rhai nad ydynt yn gallu cael mynychu swyddfeydd yr awdurdod cynllunio lleol, am resymau mynediad neu deithio neu oherwydd ymrwymïadau amser. Mae llawer o awdurdodau cynllunio lleol yn defnyddio systemau TGCh sy'n gallu cyhoeddi ffeiliau cais cynllunio a chynnwys cysylltiedig yn uniongyrchol i wefan yr awdurdod.

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae awdurdodau cynllunio lleol wedi paratoi ar gyfer effaith y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a ddaeth i rym ychydig ar ôl diwedd y cyfnod adrodd, ym mis Mai 2018. Mae awdurdodau cynllunio lleol wedi adolygu'r ffordd y mae gwybodaeth yn cael ei rhannu ar-lein ac yn arbennig y ffordd y mae sylwadau trydydd parti yn cael eu rhannu. Mae rhai awdurdodau cynllunio lleol wedi newid arferion sydd wedi'u hen sefydlu o ganlyniad, er mwyn sicrhau eu cydymffurfiaeth eu hun â'r rheoliad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn rhywfaint o adborth negyddol oddi wrth aelodau o'r cyhoedd sy'n teimlo'n siomedig fod eu hawdurdod cynllunio lleol wedi dewis peidio â rhannu eu sylwadau trydydd parti ar gofrestr gynllunio ar-lein yr awdurdod. Er nad oes unrhyw ddyletswydd i gyhoeddi sylwadau trydydd parti ar y gofrestr gynllunio gyhoeddus, mae'n arfer gorau gwneud hynny ar yr amod nad oes unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei datgelu, ac mae'n rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol fodloni ei rwymedigaethau ei hun o ran datgelu gwybodaeth bersonol.



Ffigur 36 – Nifer yr awdurdodau cynllunio lleol sy'n cynnig manylion cais cynllunio llawn neu rannol neu ddim manylion cais o gwbl ar eu gwefan

Mae Ffigur 36 yn dangos bod 21 awdurdod cynllunio lleol yn darparu mynediad llawn at ffeiliau ceisiadau cynllunio ar eu gwefannau. O'r pedwar sy'n weddill, mae dau (Cyngor Sir Ceredigion ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) yn darparu rhywfaint o

wybodaeth ceisiadau cynllunio ac mae dau (Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chyngor Sir Ynys Môn) nad ydynt yn darparu unrhyw wybodaeth.

Nid oes unrhyw newid yn ystod y flwyddyn o ran perfformiad yn erbyn y safonau hyn yn ystod y cyfnodau adrodd. Fodd bynnag, mae pob un o'r pedwar awdurdod cynllunio lleol yn mynegi bwriad i brynu neu ddiweddarau systemau TGCh yn y dyfodol agos.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn rhagweld y bydd ei system rheoli dogfennau newydd, sydd wedi profi peth oedi, yn mynd yn fyw yn ystod blwyddyn galendr 2018. Bydd hyn yn galluogi preswylwyr i weld ceisiadau a dogfennau ategol ar-lein. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent hefyd yn y broses o adnewyddu seilwaith TGCh ac mae'n cynllunio cyflwyno gwasanaeth chwiliadwy ar y we yn 2019. Mae Cyngor Sir Ynys Môn hefyd yn bwriadu cyflwyno system TGCh newydd a fydd yn galluogi adolygu dogfennau cynllunio ar-lein yn 2019.


ADRAN 5 – GORFODI

Dangosydd 15 – Y ganran o achosion gorfodi a archwiliwyd o fewn 84 diwrnod 80.6%

Gall trydydd partiön ddisgwyl y bydd achosion honedig o dorri rheolaethau cynllunio yn cael eu harchwilio o fewn amserlen resymol. Mae'r targed o 84 diwrnod, neu 12 wythnos, wedi'i nodi fel amser rhesymol i ymateb i gwynion.

Nid yw gweithgareddau gorfodi yn "ennill ffi" – hynny yw, pan fo rheolaethau cynllunio yn cael eu torri, mae'n debygol o gostio i'r awdurdod cynllunio lleol o ran adnoddau a gweithgareddau staff ymhell y tu hwnt i unrhyw ffi bosibl o gais ôl-weithredol i reoleiddio datblygu anghyfreithlon. Mae gorfodi rheolaethau cynllunio, fodd bynnag, yn sylfaenol i'r system gynllunio. Hynny yw, heb orfodi effeithiol, ni fyddai unrhyw ganlyniad i beidio â sicrhau caniatâd cynllunio.

Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol hefyd sicrhau cydbwysedd rhwng defnyddio pwerau gorfodi pan fo'n gyfleus gwneud hynny a bod â'r gallu i reoli disgwyliau cymunedau a allai fod am weld camau gorfodi yn cael eu cymryd yn erbyn achosion dibwys o dorri rheolaethau sy'n dderbyniol o safbwynt cynllunio. Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol hefyd wrthbwysu'r galwadau am ymchwiliadau gorfodi yn erbyn gwaith ehangach timau rheoli datblygu.




Ffigur 37 – Canran y cwynion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod

Mae Ffigur 37 uchod yn dangos perfformiad unigol awdurdodau cynllunio lleol yn erbyn y dangosydd hwn, gyda chod lliw sy'n gysylltiedig â pherfformiad, sef coch ar gyfer "gwella",

oren ar gyfer “gweddol” a gwyrdd ar gyfer “da” yn y drefn honno. Mae 16 awdurdod cynllunio lleol yn cyrraedd y band perfformiad “da” yn gyfforddus. Mae allanolion sylweddol o ran perfformiad yn erbyn y dangosydd perfformiad hwn.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi perfformio'n ardderchog yn y maes hwn er bod ganddo dîm rheoli datblygu bach. Gwnaeth y cyngor gynnal adolygiad o'i wasanaeth gorfodi yn ystod y cyfnod adrodd, ac mae wedi ceisio newid pwerau dirprwyedig er mwyn gwella'r ffordd mae'n ymdrin â materion gorfodi. O ganlyniad i'r adolygiad, mae'r cyngor wedi penodi "eiriolwr aelodau" ar gyfer gorfodi, a bydd hefyd yn dechrau gwaith ar bolisi gorfodi newydd.



Ffigur 38 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o'r ganran o achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod

Mae Ffigur 38 yn dangos perfformiad Cymru gyfan yn erbyn y dangosydd hwn, gyda chod lliw sy'n gysylltiedig â pherfformiad, sef coch ar gyfer “gwella”, oren ar gyfer “gweddol” a gwyrdd ar gyfer “da” yn y drefn honno. Mae'n dangos yn y rhan fwyaf o achosion (80.6%) fod cwynion ynglŷn â thorri rheolaethau cynllunio yn cael eu hymchwilio iddynt o fewn y dyddiad targed o 84 diwrnod. Mae hwn yn ychydig o ostyngiad o ran perfformiad o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, er mai'r duedd dros y cyfnod hwy yw ar gyfer gwelliant yn y maes hwn. Mae'n amlwg yn ôl llawer o'r Adroddiadau Perfformiad Blynyddol fod pwysau ar adnoddau yn effeithio yn uniongyrchol ar gyflenwi gwasanaethau gorfodi ar lefel leol, er bod darparu adnoddau ar gyfer adrannau cynllunio yn benderfyniad lleol a bod yn rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol benderfynu ar sut i gydbwysu'r gwasanaeth mae'n ei ddarparu.


Mewn nifer o achosion, mae awdurdodau cynllunio lleol naill ai'n rhoi'r dasg o drin ceisiadau cynllunio i swyddogion gorfodi neu, mewn rhai achosion, maent yn cael gwared ar dimau gorfodi ac yn rhoi'r dasg o ymgymryd â gweithgareddau gorfodi i swyddogion rheoli datblygu. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Abertawe yn adrodd am ôl-groniad o achosion gorfodi heriol sydd wedi digwydd o ganlyniad i ddiffyg adnoddau hanesyddol. Mae'r cyngor bellach yn gweithio'n galed i oresgyn yr ôl-groniad.

Mae'r dangosydd hwn yn dangos yr amser cyfartalog a gymerir i awdurdodau cynllunio lleol gymryd camau gorfodi cadarnhaol i ddatrys cwynion gorfodi, fel y disgrifir yn Nangosydd 17. Mae'r mesurydd hwn ond yn mesur achosion pan fo camau gweithredu yn cael eu cymryd i ddatrys tor-reolaeth, ac mae'n eithrio achosion pan fo awdurdod cynllunio lleol yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw dorri rheolaethau wedi digwydd, neu nid oes camau gorfodi yn gyfleus.

Mae'r dangosydd wedi'i ddylunio i gofnodi gweithgarwch awdurdod cynllunio lleol – er enghraifft, mae'r "amser cyfartalog a gymerwyd i ddatrys" yn mesur yr amser a gymerir i ddod ag erlyniad at yr adeg pan mae'r achos yn cael ei glywed gyntaf, gan fod yr amser a gymerir i'r achos gael ei benderfynu gan y llys y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod cynllunio lleol.

Mae'r dangosydd hwn yn gweithredu er mwyn dangos yr heriau mae awdurdodau cynllunio lleol yn eu hwynebu wrth ddilyn camau gorfodi ac, yn arbennig, y buddsoddiad o ran adnoddau ac amser sy'n ofynnol er mwyn rheoleiddio datblygiad pan fo achos o dorri rheolaethau wedi cael ei gadarnhau.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru gyflwyno diffiniad newydd ar gyfer y dangosydd hwn ar gais Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru er mwyn sicrhau bod perfformiad gorfodi yn cael ei fesur gan yr agweddau hynny o'r gwasanaeth sydd o fewn rheolaeth yr awdurdod cynllunio lleol yn unig. Rydym yn deall, fodd bynnag, fod rhywfaint o amrywiaeth wedi bod o ran y ffordd y mae'r dangosydd wedi cael ei ddehongli. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y sylwebaeth gan rai awdurdodau cynllunio lleol yn eu Hadroddiadau Perfformiad Blynyddol eu hun.



Ffigur 39 – Yr amser cyfartalog a gymerwyd i ddatrys achosion gorfodi

Mae Ffigur 39 uchod yn dangos yr amser cyfartalog a gymerwyd gan bob awdurdod cynllunio lleol i ddilyn camau gweithredu gorfodi cadarnhaol. Gan fod y dangosydd hwn wedi cael ei ailddiffinio yn ddiweddar, nid yw targedau perfformiad wedi cael eu cytuno gyda rhanddeiliaid eto. Gwnaeth pum awdurdod cynllunio lleol fethu â darparu data perfformiad yn ystod y cyfnod adrodd. Er bod y diffiniad o'r dangosydd wedi newid yn ystod y cyfnod adrodd, rydym yn ystyried bod rhai allanolion y gellir eu nodi.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi gweithio i glirio ôl-groniad mawr o achosion gorfodi hanesyddol, y mae'n derbyn sydd wedi gwro'r perfformiad yr adroddwyd ganddo, ond mae'n ystyried y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol dros y tymor hwy ar gyflenwi gwasanaethau cynllunio.

Mae cryn amrywiaeth o ran yr amser a adroddwyd i ddilyn camau gorfodi cadarnhaol ac rydym yn ymwybodol o ansicrwydd parhaus ynglŷn â'r dehongliad o'r dangosydd hwn. Darparwyd diffiniad gwell ar gyfer y dangosydd hwn ym mis Gorffennaf 2018, yr ydym yn ystyried a fydd yn sicrhau mwy o adrodd cyson yn y dyfodol. Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf y mae'r dangosydd wedi cael ei fesur yn y ffordd hon, bydd angen i ni ystyried tueddiadau yn y dyfodol cyn dod i gasgliad ar weithrediad gweithdrefnau gorfodi cyfredol.

4 – DATBLYGU CYNALIADWY

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, i gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn diffinio datblygu cynaliadwy fel a ganlyn:

Mae “datblygu cynaliadwy” yn golygu'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.

Mae gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu bod yn rhaid i gorff weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae'r system gynllunio yn allweddol wrth weithredu datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae'n galluogi'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi ar gyfer defnyddio, rheoli a datblygu tir er budd y cyhoedd. Mae hefyd yn fecanwaith allweddol ar gyfer gweithredu'r strategaeth genedlaethol “Ffyniant i Bawb”.

Cyhoeddwyd fersiwn newydd o Bolisi Cynllunio Cymru ym mis Rhagfyr 2018. Mae hyn wedi cyflwyno creu lleoedd i'r system gynllunio ac mae'n gosod creu lleoedd cynaliadwy fel nod i'r system gynllunio.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cyfres o saith dangosydd allweddol i nodi sut mae'r system gynllunio yn cyfrannu at gyflawni gwaith datblygu cynaliadwy strategol yng Nghymru. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- SD1 Adnewyddu economaidd – Datblygu economaidd
- SD2 Economi carbon isel - Ynni adnewyddadwy
- SD3 Mynediad at gartrefi gwell – Cartrefi newydd (gan gynnwys tai fforddiadwy)
- SD4 Gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd – Perygl llifogydd
- SD5 Defnydd tir effeithlon – Tir a ddatblygwyd yn flaenorol
- SD6 Mannau agored – Mannau agored a enillwyd / a gollwyd
- SD7 Seilwaith cymunedol – Cyfraniadau a sicrhawyd ar gyfer cyfleusterau cymunedol

Caiff y wybodaeth ei chasglu oddi wrth awdurdodau cynllunio lleol yn dilyn eu hystyriaeth o geisiadau cynllunio a'i chyflwyno yn flynyddol. Caiff hon ei defnyddio ar gyfer dadansoddiad cronus yn hytrach na chymharol.

Mae darparu'r data yn angenrheidiol i ddangos y rôl sylweddol mae'r system gynllunio yn ei chwarae o ran helpu i gyflenwi amrediad o ganlyniadau datblygu cynaliadwy a gwerth cynllunio i'r gymdeithas yn fwy cyffredinol.

Gwnaeth yr awdurdodau cynllunio lleol canlynol gyflwyno data cyflawn yn ystod y cyfnod adrodd:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Dinas Caerdydd

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Gwynedd
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Gwnaeth yr awdurdodau cynllunio lleol canlynol gyflwyno data rhannol yn ystod y cyfnod adrodd:

- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Penfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro


Ni wnaeth yr awdurdod cynllunio lleol canlynol gyflwyno data yn ystod y cyfnod adrodd:

- Dinas a Sir Abertawe

Byddwn ni'n parhau i weithio tuag at roi sylw llawn i'r setiau data pwysig hyn, sy'n dangos sut y gall y system gynllunio ein helpu i symud tuag at Gymru fwy cynaliadwy.

SD1. Yr arwynebedd llawr (metrau sgwâr) y cafodd caniatâd cynllunio ei roi a'i wrthod iddo ar gyfer datblygiad economaidd newydd ar safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd yn ystod y flwyddyn

412,910 metr sgwâr wedi'u cymeradwyo, 4,293 metr sgwâr wedi'u awrthod



Dylai'r system gynllunio annog a chefnogi datblygiad sy'n cyfrannu at ffyniant ac adfywio economaidd. Dylid llywio datblygu tuag at y lleoliadau mwyaf priodol ac ni ddylid ei gyfyngu yn sgil prinder tir. Mae'r dangosydd hwn yn darparu gwybodaeth am gyfraniad y system gynllunio i gyflawni datblygiad economaidd (neu gyflogaeth) traddodiadol. Dyma'r flwyddyn gyntaf i ddata gael ei gasglu ar gyfer datblygiadau ar safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd ac ar safleoedd na chafodd eu neilltuo.

Dros y cyfnod 2017/18, cafodd 314,533 metr sgwâr o arwynebedd llawr ganiatâd cynllunio ar safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd, tra cafodd 167,510 metr sgwâr pellach ganiatâd ar safleoedd heb eu neilltuo. Mae'r ffigur ar gyfer safleoedd a neilltuwyd yn gynydd o 103% ar yr hyn a adroddwyd y llynedd, pan gafodd 154,819 metr sgwâr o arwynebedd llawr newydd ganiatâd cynllunio. Mae hyn yn newid o ran yr arwynebedd llawr newydd a gafodd ganiatâd ar safleoedd a neilltuwyd, a fu'n dangos arwyddion o ddirywiad rhwng 2014/15 a 2016/17.

Arwynebedd llawr y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer ar safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd

Eleni, gwnaeth y sector busnes gyfrannu 23% o'r arwynebedd llawr cyflogaeth a gafodd ganiatâd; fel cyfran o'r cyfanswm arwynebedd llawr a gafodd ganiatâd, mae hyn wedi gostwng o 52% yn 2016/17 i 23%. Fodd bynnag, o ran arwynebedd llawr gwirioneddol a roddwyd, mae hyn ond ychydig yn llai ar 74,986 metr sgwâr o'i gymharu â 81,915 metr sgwâr yn 2016/17. Mae canlyniadau'r ddwy flynedd ddiwethaf yn dangos peth sefydlogrwydd yn y farchnad fusnes yn ymwneud â blynyddoedd blaenorol, pan gafodd yn 2014/15, er enghraifft, 69,068 metr sgwâr (neu 27% o gyfanswm y datblygiad cyflogaeth) eu rhoi. Fodd bynnag, yn ystod 2015/16, cafwyd gostyngiad sylweddol mewn arwynebedd llawr pan gafodd 14,390 metr sgwâr yn unig (6% o gyfanswm y datblygiad cyflogaeth) eu rhoi.

Diwydiant cyffredinol yw'r cyfrannwr lleiaf i'r cyfanswm eleni, ar 15%; mae hwn yn gynydd ar ffigur y llynedd o 9%. Fodd bynnag, o ran arwynebedd llawr gwirioneddol a roddwyd, gwelwyd cynnydd o 315% eleni o 15,416 metr sgwâr i 48,707 metr sgwâr. Eleni mae'r arwynebedd llawr a gafodd ganiatâd tua hanner yr hyn a gafwyd yn 2014/15 a 2015/16, a oedd yn dod i gyfanswm o 92,264 metr sgwâr a 93,748 metr sgwâr yn y drefn honno.

Storio a dosbarthu oedd yr ail gyfrannwr mwyaf i arwynebedd llawr eleni, gan gyfrif am 26% o'r cyfanswm, neu 82,384 metr sgwâr. Mae hwn yn 125% o gynydd yn ystod 2016/17, sef 36,485 metr sgwâr.

Y cyfrannwr mwyaf eleni yw defnyddiau lluosog, lle y cafodd 108,456 metr sgwâr ganiatâd cynllunio. Yn 2016/17, roedd defnyddiau lluosog yn cyfrif am gyfanswm o 21,008 metr sgwâr yn unig, gan ddangos cynnydd o bum gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, gan eithrio'r llynedd, mae'r duedd gyffredinol ar gyfer defnyddiau lluosog wedi bod ar ei fyny, gyda 62,520 metr sgwâr a 76,908 metr sgwâr yn 2014/15 a 2015/16 yn y drefn honno.

Arwynebedd llawr y gwrthodwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer ar safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd

Gwrthodwyd caniatâd cynllunio i gyfanswm o 1,422 metr sgwâr o arwynebedd llawr ar gyfer cyflogaeth eleni o'i gymharu â 14,283 metr sgwâr yn 2016/17, sef gostyngiad o 90%. Mae hyn yn cyfateb i 0.5% yn unig o arwynebedd llawr yn cael ei wrthod. Dros y tair blynedd rhwng 2014/15 a 2016/17, roedd yr arwynebedd llawr a wrthodwyd yn 0.1%, 8%, a 9%. Roedd diwydiant cyffredinol yn cyfrif am y darn mwyaf o'r farchnad ar gyfer gwrthodiadau eleni ar 75% neu 1,075 metr sgwâr, wedi'i ddilyn gan fusnes a storio a dosbarthu – ni chafodd unrhyw ddefnyddiau lluosog eu gwrthod. Y llynedd, roedd busnesau yn cyfrif am y rhan fwyaf o wrthodiadau ar 92% neu 13,153 metr sgwâr, tra oedd yr holl wrthodiadau yn 2015/16 yn dod o dan storio a dosbarthu (o'r 26,432 metr sgwâr a wrthodwyd, roedd 26,000 metr sgwâr wedi'u lleoli yng Nghastell-nedd Port Talbot). Ni fu unrhyw batrymau y gellir eu harsylwi o ran gwrthodiadau dros y pedair blynedd diwethaf, ar wahân i ddefnyddiau lluosog, sydd heb gael unrhyw wrthodiadau yn ystod y cyfnod.

Arwynebedd llawr y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer ar safleoedd cyflogaeth heb eu neilltuo

Roedd defnyddiau lluosog yn cyfrif am y gyfran fwyaf o arwynebedd llawr ar gyfer cyflogaeth a roddwyd yn ystod 2017/17, sef 39% neu 65,536 metr sgwâr. Dilynwyd

defnyddiau lluosog gan storio a dosbarthu ar 29% (48,001 metr sgwâr), diwydiant cyffredinol ar 17% (28,037 metr sgwâr) a busnes ar 15% (25,936 metr sgwâr). Roedd caniatâd a roddwyd ar gyfer arwynebedd llawr ar safleoedd heb eu neilltuo yn cyfrif am 34% o'r holl arwynebedd llawr ar gyfer cyflogaeth a roddwyd.


Arwynebedd llawr y gwrthodwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer ar safleoedd cyflogaeth heb eu neilltuo

Gwrthodwyd caniatâd cynllunio i gyfanswm o 3,171 metr sgwâr o arwynebedd llawr yn ystod y cyfnod 2017/18. Roedd diwydiant cyffredinol yn cyfrif am y gyfran fwyaf o'r ffigur hwn, ar 76% neu 2,405 metr sgwâr. Cafodd diwydiant cyffredinol ei ddilyn gan ddefnyddiau lluosog ar 9% (300 metr sgwâr), storio a dosbarthu ar 7% (237 metr sgwâr) ac yna busnes ar 7% (229 metr sgwâr). Roedd caniatâd a wrthodwyd ar gyfer arwynebedd llawr ar safleoedd heb eu neilltuo yn cyfrif am 69% o'r holl arwynebedd llawr ar gyfer cyflogaeth a wrthodwyd.


SD2. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn ystod y flwyddyn


49 o geisiadau,
112 megawat

SD2 Nifer y ceisiadau am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a gafodd caniatâd cynllunio



SD2 Capasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel a gafodd caniatâd cynllunio (MW)





Gall y system gynllunio hwyluso creu ynni adnewyddadwy a charbon isel. Mae'r dangosydd hwn yn dangos i ni'r cyfraniad mae'r system gynllunio yn ei wneud tuag at y gwaith o greu ynni adnewyddadwy a charbon isel a symud tuag at economi carbon isel.


Mae'r data yn dangos bod y system gynllunio yn hwyluso cymysgedd o ddatblygu adnewyddadwy a charbon isel. Fodd bynnag, ers 2015/16, gwelwyd gostyngiad sylweddol o ran nifer y cymeradwyaethau a chapasiti creu ynni'r cynlluniau hynny. Mae'r gostyngiad o ran caniatadau yn debygol o fod o ganlyniad i doriadau gan Lywodraeth y DU i'r gyfundrefn ar gyfer rhoi cymhorthdal i gynlluniau ynni adnewyddadwy. Yn 2015/16, roedd uchafbwynt o ran caniatadau, a oedd yn debygol o fod o ganlyniad i ddatblygwyr yn ceisio cael caniatâd cynllunio cyn i'r newidiadau cymhorthdal ddod i rym. Mae'r data ar gyfer 2016/17 a 2017/18 yn dangos bod gostyngiad dilynol wedi bod ers y newidiadau i'r cymhorthdal.

Eleni, y technolegau gyda'r nifer uchaf o gymeradwyaethau yw solar, gwynt, ynni dŵr a biomas. Mae cynlluniau ynni solar yn cyfrannu'r capasiti ynni mwyaf o bell ffordd.

Yn gyffredinol, mae'r data yn dangos bod y cynlluniau ynni adnewyddadwy a charbon isel sy'n cael eu cyflwyno ac yn sicrhau caniatâd yn arafu yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynyddu ynni adnewyddadwy ac mae wedi gosod targed ar gyfer Cymru i gynhyrchu 70% o'i defnydd trydan o ynni adnewyddadwy erbyn 2030. Er mwyn hwyluso hyn, rydym wedi gwneud newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru i gryfhau ymhellach ein polisi cynllunio cadarnhaol ar ynni adnewyddadwy a charbon isel. Rydym hefyd yn paratoui'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a fydd yn cael ei lywio gan ymchwil sy'n asesu'r potensial ar gyfer datblygu ynni solar a gwynt ar y tir yng Nghymru.

SD3. Nifer yr anheddau a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y flwyddyn

10,933 o anheddau ar y farchnad agored,
2,677 o anheddau fforddiadwy





Mae'r system gynllunio yn hwyluso darparu tai fforddiadwy a thai'r farchnad agored i ddiwallu gofynion tai lleol a nodwyd gan yr awdurdodau cynllunio lleol yn eu cynlluniau datblygu. Mae'r dangosydd hwn yn darparu gwybodaeth ar gyfraniad y system gynllunio tuag at ddarparu tai newydd ar ffurf caniatadau cynllunio a roddwyd ar gyfer tai fforddiadwy a thai'r farchnad agored. Fel y cyfryw, nid oes modd cymharu'r dangosydd hwn ag ystadegau Llywodraeth Cymru ar 'ddarpariaeth tai fforddiadwy' ac 'adeiladu tai newydd', y mae ill dau yn casglu data yn bennaf ar dai a gwblhawyd.

Mae'r data yn dangos bod 13,660 o anheddau wedi cael caniatâd cynllunio yn 2017/18, sef gostyngiad o 1,209 o'i gymharu â'r data ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Er bod hwn yn ostyngiad cyffredinol ar y ffigur ar gyfer 2016/17, bu cynnydd bach o ran y nifer o gartrefi marchnad agored a gafodd ganiatâd cynllunio (i fyny o 10,860 i 10,993). Mae'r gostyngiad cyffredinol yn ganlyniad llai o dai fforddiadwy (yn unol â'r diffiniad yn Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy) yn derbyn caniatâd cynllunio, i lawr o 1,342 o gartrefi o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r caniatadau tai fforddiadwy ar gyfer 2017/18 yn cyfrif am 20% o gyfanswm nifer yr anheddau y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt, sy'n ostyngiad o 7% o'i gymharu â data'r llynedd.

SD4. Caniatâd cynllunio a roddwyd ac a wrthodwyd ar gyfer datblygiadau mewn ardaloedd gorlifdir C1 ac C2 yn ystod y flwyddyn

Cymeradwywyd 1,221 o anheddau a 404 hecтар; gwrthodwyd 85 o anheddau a thri hecтар




Mae gan y system gynllunio rôl bwysig o ran sicrhau bod gwaith datblygu newydd yn cael ei leoli mewn modd fel y bo'r bygythiad o lifogydd yn cael ei leihau. Yn unol â hynny, mae'r polisi cynllunio cenedlaethol yn ceisio llywio datblygu tuag at leoliadau heb unrhyw berygl o lifogydd neu berygl prin o lifogydd. Mae'r dangosydd hwn yn darparu gwybodaeth am sut y mae ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd yn cael eu rheoli. Mae canlyniadau eleni eto'n dangos parodrwydd pryderus gan awdurdodau cynllunio lleol i roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau preswyl mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd.

Dangosodd y canlyniadau yn 2016/17 gynnydd arwyddocaol o ran nifer y cartrefi newydd a ganiatawyd mewn ardaloedd heb amddiffyniad sydd mewn perygl o lifogydd o'r hyn a fu'n rhif a oedd yn gyson isel yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Mae hyn wedi parhau yn 2017/18, gyda 1,221 o anheddau newydd yn cael eu cymeradwyo mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd. O'r rhain, cafodd 263 o gartrefi newydd eu cymeradwyo ym mharth llifogydd C2, sy'n ardaloedd heb amddiffyniad sylweddol rhag y perygl o lifogydd. Cafodd 958 o gartrefi pellach eu cymeradwyo ym mharth llifogydd C1, lle mae'r tir yn elwa ar ryw faint o amddiffyniad rhag y perygl o lifogydd. Mae'r datganiadau cyfunedig ar gyfer 2016/17 a 2017/18 yn destun pryder, felly bydd yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ddarparu mwy o fanylion yn y dyfodol mewn perthynas â cheisiadau a gymeradwywyd ym mharth llifogydd C2. Mae adolygiad o bolisi cynllunio cenedlaethol ar y mater hefyd ar waith.

Mae'r rhan fwyaf o ddatblygiadau amhreswyl yn cael eu categorio fel rhai sy'n llai agored i lifogydd, ac felly mae gan y polisi cenedlaethol ddull gweithredu mwy goddefol, ar yr amod fod rhai profion ac amodau penodol yn cael eu bodloni. Cafodd ychydig dros 400 hectar o dir eu cymeradwyo ar gyfer datblygu amhreswyl ym mharth llifogydd C.

SD5. Yr arwynebedd tir (hectar) y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd arno, ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol a thir maes glas, yn ystod y flwyddyn

296 (a ddatblygwyd yn flaenorol)
412 (maes glas)



Gall y system gynllunio sicrhau, lle y bo'n bosibl, fod tir a ddatblygwyd yn flaenorol yn cael blaenoriaeth o ran ei ddefnyddio, yn hytrach na safleoedd maes glas, yn arbennig y rheini sydd o werth amaethyddol neu ecolegol uchel. Mae'r dangosydd hwn yn dweud wrthym a yw'r system gynllunio yn cyfeirio datblygiad newydd tuag at dir a ddatblygwyd yn flaenorol.


Eleni, o'r data a ddarparwyd, cafodd 42% o ddatblygiadau newydd eu cymeradwyo ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol. Mae'r data yn dangos hefyd fod yr arwynebedd tir cyffredinol a gafodd caniatâd cynllunio yn sylweddol is na'r blynyddoedd blaenorol. Mae'r data yn dangos sut mae'r system gynllunio yn cyfeirio datblygiadau newydd tuag at dir a ddatblygwyd yn flaenorol, ond mae hefyd yn dangos nad yw hyn bob amser yn bosibl ac mae datblygu hefyd yn cael ei ganiatáu ar dir maes glas.

Cafodd dilyniant chwilio safle ei gyflwyno'n ddiweddar i Bolisi Cynllunio Cymru, sy'n ei wneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio ystyried tir a ddatblygwyd yn flaenorol (a/neu safleoedd sy'n cael eu tanddefnyddio o fewn aneddiadau presennol) yn y lle cyntaf wrth ddatblygu eu strategaeth ofodol. Byddwn ni'n defnyddio'r dangosyddion datblygu cynaliadwy i fonitro gweithredu'r polisi hwn.

Mae awdurdodau cynllunio wedi mynegi pryder fod y dangosydd hwn yn cynnwys datblygiadau sydd, o ran eu natur, angen cael eu lleoli ar safleoedd maes glas. Mewn ymateb i hyn, rydym wedi cytuno i eithrio datblygu mewn perthynas â gweithgareddau amaethyddiaeth, coedwigaeth a marchogaeth.

SD6. Arwynebedd y mannau agored cyhoeddus (hectar) a fyddai'n cael eu colli a'u hennill o ganlyniad i ddatblygiadau y rhoddwyd caniatâd

**Collwyd 25 hectar
Enillwyd 38 hectar**




Mae mannau agored yn darparu gwerth hamdden, amwynder ac amgylcheddol yn ogystal â bod â rôl o ran amddiffyn yr hinsawdd ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r dangosydd hwn yn mesur sut mae'r system gynllunio yn diogelu mannau agored sydd eisoes yn bodoli ac yn hwyluso darparu mannau agored newydd.

Mae'r data yn dangos bod mwy o fannau agored wedi cael eu hennill na'u colli yn ystod y flwyddyn. Daw'r ffigurau yn dilyn gwelliant amlwg yn 2016/17 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae polisi cynllunio yn nodi y dylai mannau agored ond cael eu colli pan fod cyfleuster tebyg neu well yn cael ei roi yn eu lle, neu pan nad oes angen ar gyfer y man mwyach. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymatebion yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol, sy'n tanlinellu, pan fo man agored wedi'i golli, ei fod wedi galluogi gwelliant o ran cyfleusterau mewn man arall.

SD7. Cyfanswm y cyfraniadau ariannol (£) a gytunwyd o waith datblygu newydd a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y chwarter ar gyfer darparu seilwaith cymunedol

£40,029,665
(Adran 106)

£1,728,889 (Ardoll
Seilwaith
Cymunedol)



Gall cyfraniadau ariannol gael eu defnyddio i ariannu darparu'r seilwaith cymunedol sy'n ofynnol i gefnogi datblygu cynaliadwy. Mae'r dangosydd hwn yn mesur y lefel o gyfraniadau ariannol y cytunwyd arni ar gyfer darparu seilwaith cymunedol.

Mae'r data yn dangos bod yr awdurdodau cynllunio lleol sydd wedi darparu datganiadau o niferoedd wedi sicrhau swm sylweddol o gyfraniadau ariannol er mwyn ariannu seilwaith cymunedol, yn bennaf drwy gytundebau Adran 106.

O'i gymharu â data'r llynedd, bu cynnydd o £14,185,533 mewn cytundebau Adran 106 a chynnydd o £1,036,901 o ran casglu cyfraniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Yn gyffredinol, bu cynnydd o £15,222,434 mewn cyfraniadau ariannol. Mae'r casgliad cyfartalog o gyfraniadau Adran 106 fesul awdurdod lleol yn £1,601,187, gyda Chasnewydd (£11,750,557), Bro Morgannwg (£8,109,965) a Chaerdydd (£7,153,881) yn cyfrannu uchaf. Gwnaeth pum awdurdod (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Abertawe) adrodd na fu unrhyw gasgliadau.

Tri awdurdod yn unig a wnaeth adrodd am gyfraniadau Ardoll Seilwaith Cymunedol: Caerffili (£1,567,131), Rhondda Cynon Taf (£134,758) a Merthyr Tudful (£27,000). Mae Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen i gyd yn edrych tuag at fabwysiadu Ardoll Seilwaith Cymunedol, ond, hyd yn hyn, nid oes yr un wedi cael ei mabwysiadu a'i gweithredu.

5 – CASGLIAD

Y neges gyffredin sy'n dod i'r amlwg o'r Adroddiadau Perfformiad Blynyddol yn y cylch perfformiad hwn yw un o ddulliau gweithredu creadigol i fynd i'r afael â chyni'r sector cyhoeddus. Mae bron yr holl awdurdodau cynllunio lleol, a nifer o ymgynghoreion statudol, yn adrodd am ddulliau gweithredu arloesol naill ai i symleiddio cyflenwi'r gwasanaeth, neu er mwyn cynhyrchu llifau incwm amgen, mewn ymateb i bwysau cynyddol ar gyllidebau.

Mae cryn dipyn o weithgarwch yn digwydd ar lefel llywodraeth leol i gynnal safonau gwasanaeth. Mae swyddogion awdurdodau cynllunio lleol wedi gweithio y tu hwnt i'w meysydd arferol er mwyn cynnal y safonau gwasanaeth hyn, gyda swyddogion polisi a gorfodi mewn nifer o awdurdodau yn ysgwyddo beichiau achosion rheoli datblygu a nifer o awdurdodau cynllunio lleol yn adrodd bod eu swyddogion yn gweithio "uwchlaw a thu hwnt" er mwyn cyflenwi lefelau gwasanaeth derbyniol. Mae'r ymrwymiad hwn i gyflenwi gwasanaeth yn sgil cyni yn cael ei gymeradwyo.

Mae gwaith ymchwil y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol ar "werth cynllunio" hefyd yn dangos y mewnfuddsoddiad sylweddol a grëwyd gan system gynllunio sydd wedi'i harwain gan gynllun, gan alluogi creu cyfoeth o dros £2.3 biliwn yn ystod y cyfnod 2016/17. Yn y cyfamser, mae awdurdodau cynllunio lleol yn parhau i wynebu cyfyngiadau difrifol ar adnoddau, ac maent eisoes wedi dihysbyddu'r rhan fwyaf o'r cyfleoedd i wneud arbedion pellach, gyda phwysau ariannol sylweddol yn parhau. Pe bai gwasanaethau cynllunio yn parhau i ddibynnu'n ariannol am gyllid yn cael ei gynnal oddi wrth lywodraethau lleol, yna mae'r rhain yn debygol o gynyddu. O ganlyniad, bydd ein gwaith gyda Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i nodi cost cyflenwi gwasanaethau cynllunio yn dod yn sylfaen dystiolaeth bwysig ar gyfer gwaith yn y dyfodol o ran ffioedd cynllunio a darparu adnoddau ar gyfer y system gynllunio.

Mae rhai awdurdodau cynllunio lleol wedi gwneud yn dda i ddatblygu a mabwysiadu cynlluniau datblygu yn yr hinsawdd hon, er bod y rheini sydd wedi mabwysiadu Cynlluniau Datblygu Lleol yn ystod y blynyddoedd blaenorol yn adrodd am leihau eu timau cynllunio datblygu. Mae lleihau timau blaengynllunio yn tanbrizio'r effaith sy'n ofynnol er mwyn gwireddu cynllun datblygu, ac mae awdurdodau cynllunio lleol blaengar wedi cadw eu timau cynllunio datblygu er mwyn mynd i'r afael â gwaith ychwanegol i gynorthwyo gyda gweithredu'r cynllun, megis canllawiau cynllunio atodol, prif gynlluniau, briffiau datblygu, a gweithio gyda chydweithwyr ystadau er mwyn gwaredu asedau'r cyngor.

Mae eraill wedi ceisio gweithio i lywio paratoi Cynllun Datblygu Strategol, haen newydd o gynllun a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yw'r awdurdod cyfrifol interim ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol De-ddwyrain Cymru, ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf hefyd yn arwain ar faterion cyflenwi tai mewn perthynas â Bargen Ddinesig Caerdydd.

Cafodd gwaith creadigol ei ddatblygu ar lefelau lleol i safoni a chytgordio arferion gweinyddol a gwaith achos. Mae'r gwaith gan y chwe awdurdod cynllunio lleol yng ngogledd Cymru i symleiddio a safoni arferion ar gyfer ceisiadau treftadaeth naturiol ac adeiledig, sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys safoni rhyngwynebau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw. Mae hon yn enghraifft arbennig o dda o waith yn cael ei arwain gan rai awdurdodau cynllunio lleol a allai fod o fudd i Gymru gyfan, a rhoddir diolch i awdurdodau cynllunio lleol gogledd Cymru am eu hymdrechion yn y maes hwn.

Mae cwmpas i ffurfioli peth o'r gwaith da hwn, a byddwn ni'n edrych am gyfleoedd i wneud hynny drwy wneud diwygiadau addas i bolisi ac arweiniad cenedlaethol, megis y llawlyfr rheoli datblygu, neu'r llawlyfr cynlluniau datblygu sy'n ymddangos. Byddwn ni'n parhau i weithio hefyd gyda rhanddeiliaid i ariannu a hyrwyddo gwaith i yrru arfer da yn ei flaen wrth gyflenwi gwasanaethau lleol.

SIART Y FFRAMWAITH PERFFORMIAD CYNLLUNIO - IONAWR I MAWRTH 2018

		Fersiwn: 5											Dyddiad: 22/08/2018																		
DANGOSYDD	DDA	TEG	GWELLA	CYFARTALEDD CYMRU	Blaenau Gwent	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Pen-y-bont ar Ogwr	Caerfili	Caerdydd	Sir Gaerfyrddin	Ceredigion	Conwy	Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Gwynedd	Ynys Môn	Merthyr Tydfil	Sir Fynwy	Castell-nedd Port Talbot	Casnewydd	Sir Benfro	Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro	Powys	Rhondda Cynon Taf	Parc Cenedlaethol Eryri	Abertraw	Torfaen	Bro Morgannwg	Wrecsam		
Gwneud Cynlluniau																															
A oes Cynllun Datblygu cyfredol sydd o fewn cyfnod y cynllun?	Oes		Nac oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Nac oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Nac oes	Oes	Oes	Nac oes	
Y gwriad, wrth baratoi CDLI, oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd.	<12	13-17	18+	67										34															57		111
Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLI	le		Na	le	le	le	le	le		le	Na	le					le	le							Na	le		le			
Cyflenwad tir ar gyfer tai'r awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd mewn blynyddoedd	5+		<5	3.3	1.3	4.8	4.0	2.1	3.6	4.2	2.6	3.1	1.8	0.0	5.4	5.4	1.6	4.0	5.3	6.1	5.1	1.2	7.1	1.3	3.6	0.0	3.6	6.1	0.0		
Effeithlonrwydd																															
Canran y ceisiadau "mawr" a gafodd eu pennu o fewn cyfnodau amser statudol				20.0	0.0	76.9	15.0	16.7	14.1	12.5	0.0	5.0	7.1	75.0	20.0	5.9	50.0	25.0	38.5	18.2	35.7	14.3	8.1	21.9	0.0	24.1	14.3	5.0	25.0		
				106 o 531	204 o 307	511 o 591	728 o 987	737 o 920	908 o 2636	842 o 1360	491 o 799	751 o 941	700 o 916	729 o 1021	646 o 883	544 o 886	274 o 323	576 o 1071	705 o 804	563 o 898	722 o 793	345 o 512	474 o 1379	375 o 1145	348 o 466	650 o 1916	338 o 526	799 o 1173	524 o 845		
Canran y ceisiadau "mawr" a gafodd eu pennu o fewn cyfnodau amser gofynnol	60+	50.1-59.9	<50	67.4	100.0	92.3	35.0	50.0	74.6	25.0	20.0	65.0	57.1	95.8	52.0	41.2	100.0	83.3	69.2	63.6	42.9	85.7	78.4	65.6	100.0	72.4	64.3	75.0	91.7		
				358 o 531	5 o 5	12 o 13	7 o 20	9 o 18	53 o 71	6 o 24	2 o 10	13 o 20	8 o 14	23 o 24	13 o 25	7 o 17	8 o 8	10 o 12	9 o 13	14 o 22	6 o 14	6 o 7	58 o 74	21 o 32	1 o 1	21 o 29	9 o 14	15 o 20	22 o 24		
Amser ar gyfartaledd a gymerir i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodau				240.1	109.3	92.7	221.3	134.5	169.8	466.0	224.8	176.8	209.7	138.1	114.0	524.0	149.3	188.0	573.3	195.3	113.3	162.3	410.8	428.0	178.0	268.3	162.7	164.0	273.2		
Canran yr holl geisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser statudol				70.9	66.4	86.5	73.8	80.1	72.4	61.9	61.5	79.8	76.4	71.4	73.2	61.4	84.8	63.1	87.7	62.7	91.0	67.4	34.4	76.4	74.7	86.1	64.3	68.1	62.0		
				17084 o 24098	204 o 307	511 o 591	728 o 987	737 o 920	908 o 2636	842 o 1360	491 o 799	751 o 941	700 o 916	729 o 1021	646 o 883	544 o 886	274 o 323	576 o 1071	705 o 804	563 o 898	722 o 793	345 o 512	474 o 1379	375 o 1145	348 o 466	650 o 1916	338 o 526	799 o 1173	524 o 845		
Canran yr holl geisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol	80+	70.1-79.9	<70	88.5	97.7	98.5	88.2	88.5	90.6	71.2	71.0	90.3	89.6	83.3	82.2	86.1	100.0	91.0	96.6	89.1	91.8	84.8	88.1	90.0	78.3	98.3	86.9	92.2	91.0		
				21338 o 24098	300 o 307	582 o 591	871 o 987	814 o 920	2388 o 2636	968 o 1360	567 o 799	850 o 941	821 o 916	851 o 1021	726 o 883	763 o 886	323 o 323	975 o 1071	777 o 804	800 o 898	728 o 793	434 o 512	1215 o 1379	1030 o 1145	365 o 466	1883 o 1916	457 o 526	1081 o 1173	769 o 845		
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau	<67	67-111	112+	80.7	68.8	68.3	71.8	62.8	65.8	99.8	89.0	61.8	169.7	85.8	63.5	98.5	49.8	77.3	77.8	76.5	55.5	70.8	181.3	71.5	82.0	60.0	83.1	65.0	85.2		
Canran yr geisiadau Caniatâd Adeilad Rhestredig a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol				65.4	100.0	100.0	75.0	46.2	83.6	42.9	59.1	60.4	19.4	25.8	42.3	72.7	100.0	67.0	83.3	72.4	47.8	79.2	78.0	77.8	62.2	70.0	66.7	70.0	90.0		
				551 o 842	3 o 3	54 o 54	18 o 24	6 o 13	56 o 67	21 o 49	26 o 44	32 o 53	7 o 36	8 o 31	22 o 52	24 o 33	4 o 4	59 o 88	10 o 12	21 o 29	11 o 23	19 o 24	46 o 59	7 o 9	23 o 37	14 o 20	12 o 18	21 o 30	27 o 30		
Ansawdd																															
Canran y ceisiadau y benderfynwyd arnynt o dan bwerau datganoledig				92.9	90.6	97.8	97.6	91.7	96.3	93.5	93.0	97.0	92.2	95.5	88.8	89.1	95.0	94.9	97.0	93.0	95.5	92.0	85.7	90.3	96.4	96.8	94.1	96.3	66.6		
Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion	<5	5-9	9+	8.6	17.2	0.0	0.0	0.0	4.1	15.9	60.7	7.1	11.3	13.0	7.1	8.2	0.0	7.3	0.0	3.2	5.6	2.4	9.6	9.0	17.6	4.8	6.5	0.0	4.3		
				146 o 1702	5 o 29	0 o 13	0 o 24	0 o 76	4 o 97	14 o 88	34 o 56	2 o 28	8 o 71	6 o 46	7 o 99	8 o 97	0 o 16	4 o 55	0 o 24	2 o 63	2 o 36	1 o 41	19 o 197	10 o 111	3 o 17	3 o 62	2 o 31	0 o 43	12 o 282		
Canran yr apeliadau a gafodd eu gwrthod	66+	55.1-65.9	<55	62.6	75.0	100.0	55.0	77.8	81.2	57.9	83.3	47.4	72.2	63.0	50.0	47.1	88.9	35.7	61.5	56.7	70.0	50.0	100.0	50.0	66.7	59.5	57.1	64.3	50.0		
				315 o 503	3 o 4	5 o 5	11 o 20	7 o 9	56 o 69	11 o 19	5 o 6	9 o 19	13 o 18	17 o 27	3 o 6	8 o 17	8 o 9	5 o 14	8 o 13	17 o 30	7 o 10	3 o 6	12 o 12	17 o 34	4 o 6	47 o 79	12 o 21	9 o 14	18 o 36		
Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd	0	1	2+	0	1	0	0	0	0	0	0	0	2	1	1	1	0	0	0	0	0	1	1	2	0	0	0	0	0		
Ymgysylltu																															
A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?	Oes		Nac oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Nac oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	
A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd?	Oes		Nac oes	Oes	Oes	Oes	Nac oes	Oes	Oes	Oes	Nac oes	Oes	Oes	Oes	Nac oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	
A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd olrhain cynnydd y ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?	Oes	Rhan-nol	Nac oes	Oes	Nac oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Rhannol	Oes	Oes	Oes	Oes	Nac oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Rhannol	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	
Gorfodi																															
Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu hymchwilio (penderfynwyd a oedd torri rheolau cynllunio wedi digwydd ac, os felly, penderfynwyd a oedd camau gorfodi yn addas) o fewn 84 diwrnod	80+	70.1-79.9	<70	80.6	96.8	83.8	81.9	63.8	92.6	55.6	97.3	96.5	81.3	84.6	75.4	62.4	87.0	91.3	95.3	93.8	55.0	69.5	79.4	91.7	88.4	46.4	94.2	93.2	70.3		
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi cadarnhaol				184.6	201.3	313.0	31.8	219.8	83.3	Dim Data	307.8	Dim Data	Dim Data	449.0	138.3	228.3	82.0	96.0	188.0	135.8	210.5	468.0	372.8	67.0	Dim Data	25.3	Dim Data	115.0	8.0		

